

CANU GWERIN

(FOLK SONG)



35 - 2012

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

Elusen gofrestredig rhif 259772

SWYDDOGION

Llywydd: D. Roy Saer

Is-Lywyddion

Dr Osian Ellis

Dr Meredydd Evans

Phyllis Kinney

Buddug Lloyd Roberts

Cadeirydd

Dafydd Idris Edwards

Is-Gadeirydd

Ann Saer

Aelodau

Bethan Bryn (2008)

Gwenan Gibbard (2009)

Dr E. Wyn James (2010)

Einir Wyn Jones (2009)

Trefor Pugh (2011)

Leila Salisbury (2008)

Siân Thomas (2008)

Ysgrifennydd Cyffredinol:

Dr Rhiannon Ifans

Rhandir, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EQ

Ffôn: 01970 828719

Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth:

Dr Rhidian Griffiths

Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX

Ffôn: 01970 610160

e-bost: rcg01d@quikmail.co.uk

Golygydd y cylchgrawn *Canu Gwerin*

Dr Rhiannon Ifans

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygydd na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editor or the Society.

Golygydd: Dr Rhiannon Ifans

Argraffu: Y Lolfa

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Aelodaeth unigol: £10.00
(Individual membership)

Aelodaeth deuluol: £12.00
(Family membership)

Aelodaeth myfyrwyr: £3.00
(Student membership)

Ysgrifennydd Aelodaeth / Membership Secretary:

Dr Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2HX
(01970) 610160

Llun y clawr: Cass Meurig ar y crwth a Nial Cain ar y gitâr yn ystod perfformiad o ganeuon gwerin ym mhabel Prifysgol Bangor yn Eisteddfod Wrecsam a'r Fro 2011
Ffotograffydd: Einion Dafydd

Rhifyn 35 – 2012

Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
Journal of the Welsh Folk-Song Society

Golygyddol	5
Pawb at y peth y bo	
Merched yr Anterliwtiau	7
(Darlith Goffa Amy Parry-Williams, 2010)	
Rhiannon Ifans	
‘A’r byd i gyd yn bapur ...’ Atodiad	52
E. Wyn James	
Adolygiadau	55
Llio Rhydderch a Tomos Williams, <i>Carn Ingli: Hud ar Ddyfed</i>	
Bethan Bryn	
Ffion Mair Jones, <i>Welsh Ballads of the French Revolution 1793–1815</i>	

GOLYGYDDOL

Pawb at y peth y bo

Eleni eto bu aelodau'r Gymdeithas yn brysur yn cenhadu ac yn cyflwyno alawon gwerin ble bynnag y daeth cyfle i wneud hynny. Nid yw caneuon gwerin at ddant pawb, fel y gwyddom, ac ar brydiau mae'n gryn gamp cael gwrandawiad teilwng. Mae'r naill berson yn hoffi gwrandawr ar gân gelf ac arddull gain, a'r llall yn hoffusach ganddo arddull blaen yr alaw werin. Nid peth cwbl Gymreig yw'r ddeuliaeth hon. Yn ne swydd Efrog mae sawl un o'r farn nad yw'n Nadolig nes eu bod wedi clywed Will Noble yn canu baled y 'Mistletoe Bough'. Clywais ef fy hun droeon a chael fy ngwefreiddio bob tro gan ei ganu garw di-lol, tra bod gwrandawr arall yn ymateb i'r un perfformiad gyda'r geiriau dilornus 'What a bloody racket!'



Llun: Einion Dafydd

Stori ysbryd yw baled y 'Mistletoe Bough'. Ysgrifennwyd y geiriau gan Thomas Haynes Bayly a'r gerddoriaeth gan Syr Henry Bishop tua'r flwyddyn 1830, a daeth yn faled aruthrol boblogaidd. Nid yw ei stori yn annhebyg i chwedl cariadon Nant Gwrtheyrn, Meinir a Rhys. Ar ddydd ei phriodas roedd yn arferiad i briodferch fynd i guddio rhag ffrindiau'r priodfab oedd yn dod i'w chyrchu i'r eglwys. Dewisodd Meinir guddio mewn ceubren ond methodd â dod oddi yno. Ymhen amser holltwyd y pren gan fellten a datgelu corff Meinir. Yn yr un modd aeth y ferch yn y faled Saesneg i guddio yn ystod y wledd briodas. Cuddiodd mewn hen gist dderw, ond syrthiodd caead y gist ynghau a methodd y ferch â dianc. Flynyddoedd yn ddiweddarach daethpwyd o hyd i weddillion ei chorff ar lawr y gist. Adroddir y stori yn ffilm Alfred Hitchcock *Rope* yn 1948 gan mai hon yw hoff stori'r prif gymeriad, Brandon Shaw. Dyna fesur ei phoblogrwydd.

Dychmygwch sut y dylid cyflwyno baled o'r fath i gynulleidfa gyfoes. Gellid mynd dros ben llestri yn ddigon hawdd wrth gyflwyno'r fath stori felancolaidd – yn enwedig gan Gymro neu Gymraes o angerdd. Ond dwyster syml, a difrifwch o fewn ffiniau naturioldeb, oedd nodyn llywodraethol perfformiad Will Noble. Deallodd fantais cynildeb.

Tybed a ddaw'r dydd pan welwn lai o ystumio a ffugio wrth gyflwyno cân werin? Wrth wrando ar gystadlaethau a pherfformiadau yn ystod y flwyddyn clywais nifer o gantorion gwerin medrus dros ben. Sylwais hefyd ar duedd gref i or-wneud, gorganu, gwthio gormod i alaw a geiriau, a dim digon o wahaniaethu rhwng arddulliau perfformio. Gormod o dda nid yw ddim, neu air i'r un perwyl. Efallai mai dyma'r amser, cyn i bethau fynd yn rhy bell, inni aros i feddwl beth yn union yw natur cyflwyniad llwyddiannus o gân werin.

Dyma fydd un o'n pynciau trafod yn y Gynhadledd Flynyddol eleni (13–14 Hydref) yn Fron Olau. Ystyriwch yn ddwys, a dewch â'ch sylwadau.

Darlith Goffa Amy Parry-Williams
Eisteddfod Genedlaethol Cymru Wrecsam a'r Fro
Awst 2011

MERCHED YR ANTERLIWTIAU

Rhiannon Ifans

Un o ddiléis mawr pobl y gogledd-ddwyrain oedd cael eu diddanu gan anterliwt. Yn 1798 sonia'r teithiwr Henry Skrine am 'the gaping attention of the multitude' yng ngwylmabsant Rhiwabon, gwta bedair milltir o faes yr Eisteddfod, wrth i'r gynulleidfa wylio'n gwrth berfformiad o anterliwt.



Llun: Einion Dafydd

A repast, which the hospitality of Wynne-Stay provided for us, was doubly welcome, as the neighbouring town of Rhuabon was occupied by its wake; where, as we passed afterwards, we were much entertained with the humours of a Welch play performed on an open stage.—Though the language was unintelligible, and the plot not to be developed, the strange gestures of the actors, and the gaping attention of the multitude, could not fail to excite in us that interest which novelty inspires.¹



Ac yn wir fe enwir Wrecsam ei hun yn yr anterliwt *Cyndrigolion y Deyrnas Hon* (1737) wrth ddisgrifio dau gawr, eu bod 'cyn daled a chlochdŷ Gwrexham'.² Dyna ddigon o reswm dros edrych eto ar yr anterliwt, un o *genres* mawr y ddeunawfed ganrif ac un oedd wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn y sir a'r ardal hon.

Tŵr eglwys Wrecsam (trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Drama yw anterliwt, drama ddoniol a gâi ei hactio nid mewn theatr ond (fel arfer) yn yr awyr agored,³ yn y ffair, ar sgwâr y farchnad, ar y grîn, neu efallai tu cefn i ryw dafarn go boblogaidd gan ddefnyddio trol fel llwyfan, neu hen setl o bosibl, neu hyd yn oed godiad tir. Yng ngwylmabsant Llandudno, 8 Mehefin 1761: ‘Yno roedd enterlude, a charreg fawr ysgwâr a thywarch rhyd-ddi ydoedd y *stage*.’⁴ Safai pawb i wylïo’r ddrama, cryd cymalau a chwbl, a thalu ceiniog am gael gwneud hynny.

Yn wreiddiol mân ddramâu byrion iawn oedd yn cael eu perfformio yn ystod *interlude* mewn drama hir (sef yn ystod yr egwyl rhwng yr act gyntaf a’r ail) oedd anterliwt, ond fe aeth pob anterliwt gydag amser yn ddrama gyfan ynddi ei hun. Byddai anterliwtiau Thomas Edwards ‘Twm o’r Nant’ (1739–1810), brenin yr anterliwtwyr Cymraeg ac un o ddynion y sir hon, yn medru para dwyawr dda, ac o ran nifer llinellau byddai gofyn i Twm eistedd hefo’i gwilsyn i lunio tua dwy fil, efallai ddwy fil a hanner o linellau – nid o ryddiaith fel y rhan fwyaf o’n dramâu cyfoes, ond o benillion yn odli oherwydd dramâu mydryddol yw’r anterliwtiau. Fel petai hynny ddim yn ddigon deuai’r anterliwt i stop bob hyn a hyn er mwyn i gymeriad gael canu cân a fyddai’n tanlinellu rhyw bwynt oedd newydd gael ei wneud yn y ddrama, i’w chanu ar un o alawon poblogaidd y dydd.

Yn yr anterliwtiau gorau gwelir ymdrech lew i gyflwyno neges, boed honno’n bropaganda wrth-Fethodistaidd fel yn anterliwt William Roberts *Ffrewyll y Methodistiaid*, neu’n gic i anghyfiawnderau’r oes, yn enwedig felly ormes y tîrfeddianwyr a’r cyfreithwyr ac esgeulustod y meddygon a’r glerigaeth.⁵ Drama ddoniol yw anterliwt fel rheol, ond o dan yr hiwmor mae llawer o sylwedd, ar ffurf diarhebion, damhegion ac alegoriau, doethinebau, a chyingor ar sut i fyw. Cyfrwng peth o’r hiwmor, a’r ddoethineb, yw merched yr anterliwtiau.

A oedd merched yn ymwneud â’r anterliwt? Oeddent yn siwr; roeddent yn canlyn anterliwt amlod â’r un dyn, ac fe ddaeth yn nodwedd ar anterliwt fod y Ffŵl, sef y prif gymeriad, yn cyfarch merched y gynulleidfa ac yn galw arnynt wrth eu henwau i godi hwyl wrth agor y sioe. Swyddogaeth y Ffŵl oedd cynhesu’r gynulleidfa, ei pharatoi am noson hwyliog, a chreu *rapport* sydyn â’r dorf. O fewn ychydig benillion i’r llinell agoriadol mae’n tynnu ar y merched, yn cusanu ambell un o bosibl, yn dangos ei wisg liwgar anghyffredin

iddynt, heb sôn am ysgwyd y ffon (a ffalws arni) a gariai yn ei law. Gallwn glywed y merched hwythau'n ymateb iddo, yn chwerthin ac yn gwichian ac yn gwrido wrth glywed eu henwau – a chlywed ambell broc i'w cydwybod. Meddai Syr Caswir, Ffŵl yr anterliwt *Y Farddoneg Fabilonaid* (1768):

Dacw globen o lodes lysti,
Mae arna i dristwch agos drosti:
Wedi dŵad yma ohoni ei hun
I gerdded am ddyn i gorddi.⁶

O ffei! Nid rhaid i chwi ddim yswilio,
Nid chwi mo'r gyntaf, mi alla gowntio;
Mae yma lawer yn y lle hwn
'Run natur, debygwn, eto.

Edr'wch yma lle mae Beti,
Huw fo'n Ceidwad! A hithau Cadi.
Pwy ydyw honacw mewn gown brith?
Mae hi'n debygol i'm nith Pegi.

O diar, lle mae Nani?
Sioned, a 'nghyfnither Siani?
Barb'ra? Mali? Ni wn amcan pa'r faint
Sy ar gynnydd o geraint gen i.

Da gennych, mi wn o'r gorau,
Fy chwiorydd, mod i yma'n chwarae;
Tyrd dithau'r cerddor, mi ddawnsia i'n glir
Ryw ychydig i'r merchedau.⁷

Nid yn unig fod merched yn y gynulleidfa, ond fe gânt sylw personol y Ffŵl wrth iddo ddawnsio'n unsydd ar eu cyfer, yn giamocs i gyd, i gyfeiliant cerddoriaeth ffidil neu delyn. Mae'r anterliwt yn agor fel y bwriada fynd rhagddi – yn reiat o afiaith, a'r Ffŵl fydd yn tywys y gynulleidfa drwyddi. Roedd noson anterliwt yn noson fawr, gyfoethog ei ffraethineb, ac ynddi gwelir prawf digamsyniol fod y deunydd poblogaidd hwn yn medru torri mor agos at yr asgwrn â'r llafn llymaf.

Ar ôl dawnsio i ddiddanu'r merched gofalai'r Ffŵl fod ganddo gân ddifyr ar eu cyfer. Nodweddd barod ar yr anterliwtiau yw cân gyngor i'r merched, a'i phrif neges yw eu cyngori i fod yn ofalus yn eu hymwneud â dynion – gofal piau hi. Pwysleisir y dylai merched sicrhau mai hwy sydd â'r gair olaf mewn unrhyw garwriaeth. Dyma bennill agoriadol cân gyngor Syr Rhys y Geiriau Duon, Ffŵl yr anterliwt *Pedair Colofn Gwladwriaeth* (1786), ar yr alaw 'Codiad yr Ehedydd Bach':⁸

Y manwl ferched mwynion,
Gwamal feddal foddion,
Gwych yw gennych dan y rhod
Mewn iechyd fod yn wychion;
Yswagrio'n fawr eich glendid,
A rhodio mwy na'ch rhyddid,
Ac am y brafia 'ch gwisgiad brith
I fynd i blith ieuenctid;
Pob ymddygiad balch fon'ddiggedd,
Pob rhyw agwedd curedd cariad,
Pob rhyw siarad hen gras eiriau,
A phob ystraeau, troeau, trwyad',
Ymhob rhyw ffals naturieth ffôl
Mae'ch llawn arferol fwriad,
Ac yn eich mwynder a'ch *cymhendod *gwedduster
Fe fydd yn dyfod ryw gydafel
Wrth ymwasgu, chwysu a chosi,
Ar ôl nosi yn riwlio'n isel,
A'r mwynder taer yn ôl mynd i'r tŷ
Fydd crafu'n ddewrgu ddirgel.⁹

Fe'i dilynir gan bedwar pennill o gyngor di-fai i'r merched. Dan gochl rhybuddio'r merched rhag anlladrwydd, disgrifia'r Ffŵl yn eglur yr hyn y dylid ei osgoi wrth garu. 'Noddfa olaf anlladrwydd yn yr anterliwtiau'¹⁰ oedd y gân gyngor yn ôl un beirniad, ond roedd hi'n gân, serch hynny, a gâi dderbyniad gwresog gan y gynulleidfa.

Ar ôl canu nerth ei galon mae'r Ffŵl yn gorfod gofyn iddo'i hun a fyddai unrhyw un fymryn elwach.

Codiad yr Ehedydd Bach

Handwritten musical score for 'Codiad yr Ehedydd Bach' in 2/4 time. The score is written on a treble clef staff with a key signature of one sharp (F#). The music consists of a single melodic line with various notes, rests, and dynamic markings. The notation includes eighth and sixteenth notes, as well as rests. The score is divided into measures by vertical bar lines. The first measure starts with a treble clef and a 2/4 time signature. The music ends with a double bar line. Below the main staff, there are three empty staves for additional notation.

Handwritten musical notation (treble clef, 2/4 time):

Staff 1: s s d' s m f m r r r' r' d' t l

Staff 2: f l f f t a l s s d' d' s e t d' d' s s d' s m

Staff 3: f m r r r' r' d' t l s f l f f t a l s s

Staff 4: d' d' s e t d' d' m' m' d' d' r' r' t t d' d' l d'

Staff 5: t l s s m' m' d' m' r' r' t r' d' t e g' t l s m

Staff 6: f l f f t l s f d' d' s t d' d' m' m' d' d'

Staff 7: r' r' t t d' d' l d' t l s s m' m' d' m' r' r' t r'

Staff 8: d' t t d' t l s m f l f f t l s f d' d' s t d' d'

Nid yw cynghori merched, archiad erchyll,
Ond 'run fath â dwfr yn mynd hyd gafn pistyll,
Trwy un pen i mewn, ac allan trwy'r llall,
Ac felly mae'r gwall yn sefyll.¹¹

Dyna ddau brawf fod merched yn rhan hanfodol o'r gynulleidfa. Tybed a oeddent yn y mwyafrif mewn unrhyw gynulliad theatrig o'r fath?

Ond y llwyfan mawr: a oedd merched ar y llwyfan, neu yng ngeiriau Twm o'r Nant, 'ar y byrddau'? Yr ateb i'r cwestiwn yw: oedd – a nac oedd. Mae rhannau merched yn yr anterliwtiau, oes, ond nid rhannau yw'r rhain y byddai merched yn eu llanw. Dynion, neu'n ddelfrydol fechgyn ifainc, oedd yn chwarae pob rhan gan gynnwys rhannau'r merched. Hyd at gyfnod Siarl II yr arfer oedd gwisgo llefnyn yn ei ardegau mewn dillad merch i gynrychioli'r rhyw deg ar lwyfan. Parhawyd â'r un arfer wrth chwarae'r anterliwtiau Cymraeg. Cofnodwyd fel a ganlyn am berfformio anterliwt yn ffermdy Derwyn Fechan ym mhlwyf Dolbenmaen yn ucheldir Eifionydd nos Lun, 29 Mai 1654:

three straungers two of them men & one ladde which three this deponent saw act an enterlude the night afforesaid: all three beinge disguised & some tymes one of them in womans apparell all three at severall tymes appearinge in severall changes of apparell after divers sorts & ye shape of others some tymes in blacke, sometymes in redde & some tymes in all other collours yet this deponent knoweth the actors were the three straungers whoe continued thus actinge; and dilivering severall parts by heart for an houre or two together in the presence of Hugh ap William ap Evan & Elline; Enteringe into one roome & thence departinge into another roome as theire severall parts required ... some report ye company then present gave ye actors two shillinge & six pence & some reported more.¹²

Yn aml nid llanciau ieuainc hardd oedd yn portreadu'r merched ond yn hytrach ddynion gwledig a'u hwynebau wedi cochi gan y tywydd. Yn anterliwt Richard Parry *Cyndrigolion y Deyrnas Hon* (1737) mae golygfa (ddigon bras) lle gwneir hwyl carlamus am ben y ffaith fod dyn yn actio rhan Sibili, gwraig Tudur y Cybydd. Ymddengys dau Ffŵl yn yr anterliwt hon, Cymendin a Singrigin. Rhan o swyddogaeth Ffŵl yr anterliwt yw dwyn

4

1

1

a'r merched oedd yn cerdded straeon yr anterliwtiau. Wrth ystyried y rheini mae'n rhaid chwarae gêm. Samuel Taylor Coleridge yn 1817 (saith mlynedd ar ôl marwolaeth Twm o'r Nant) a fathodd y term 'willing suspension of disbelief' am y tro cyntaf¹⁸ a hynny wrth drafod barddoniaeth. Modd o esbonio sut y byddai llenor yn cyfiawnhau defnyddio elfennau afreal yn ei waith yw'r fformwla 'parodrwydd i atal anghrediniaeth', neu'n haws 'parodrwydd i gredu' – dros dro o leiaf. Credai Coleridge fod modd trafod math o wirionedd mewn llenyddiaeth nad yw, o reidrwydd, yn wirionedd mewn bywyd bob dydd. Er enghraifft, ni all neb ddweud am gomedïau Shakespeare fod plot pob un ohonynt yn argyhoeddi fel plot bywyd bob dydd, ond mae rhywun yn barod i roi taw ar ei anghrediniaeth oherwydd bod y themâu mae'r dramodydd yn eu trafod yn y comedïau hyn yn oesol wir. Y llenor oedd i weithredu'r 'suspension of disbelief' yn ôl damcaniaeth Coleridge, ond o'r ugeinfed ganrif ymlaen mae'r cyfrifoldeb yn symud oddi ar ysgwyddau'r llenor: heddiw mae gofyn bod darllynydd y cerddi neu'r darn llên yn gyfrifol am ei atal ei hun rhag colli cwsg os nad yw'r naratif yn ei argyhoeddi. Yn yr un modd wrth ystyried anterliwt mae gofyn derbyn cyfyngiadau'r cyfrwng a bodloni ar y syniadau sy'n sylfaenol iddi cyn y gellir rhoi cynnig ar ei gwerthfawrogi. Mae'r derbyn hwn yn caniatáu mynediad i'r anterliwt.

Un o'r pethau cyntaf a welir, a hynny o riniog y drws ar y ffordd i mewn, yw'r dull negyddol y portreedir nifer o ferched – a dynion – yr anterliwt. Hyd yn oed heddiw:

The 'typical' woman has been traditionally stereotyped as subservient, flighty, overly emotional, overly talkative, prone to hysteria, and inept at math and science. Many of these are *cultural stereotypes*. They are conveyed and supported by the cultural media – music, TV, magazines, art, and literature.¹⁹

A'r dynion yr un modd:

Men, too, are painted in crude unflattering strokes. In the media they are stereotyped as macho, insensitive, pigheaded, and, in situation comedies, inept. Generally, men are depicted as only interested in having sex with as many women as possible in the shortest time available.²⁰

Nodwedd amlwg ar garfan o ferched yr anterliwtiau yw eu tlodi, a'r un sy'n peri eu bod un ac oll yn y picil llwm y cânt eu hunain ynddo yw eu meistres erwin, Gwiddanes Dlodi. Dywed amdani hi ei hun:


Myfi ydyw'r Fadam, 'rwyf fel gwialen fedw,
Mi chwipia' ac a gicia' rai yma ac acw.²¹

Fy ofn i sy'n peri i rai godi'r bore,
Rhai i'w gorchwylion, rhai i'w siwrne,
A'r plant bach fydd yn llefain rhag llafur fy ngafel,
A'r hen bobl yn rhedeg, bron colli'r hoedel.²²

Un o'r rhai oedd yn dynn yng ngafael Gwiddanes Dlodi, ac un sy'n sefyll allan ymhlith gwragedd tlawd Twm o'r Nant, yw Gwenhwyfar yr anterliwt *Pedair Colofn Gwladwriaeth* a gyhoeddwyd gyntaf yn 1786.²³ Arhosir gyda Gwenhwyfar am beth amser fel yr enghraifft gyntaf o ferched yr anterliwt. Mae tair enghraifft i gyd.²⁴

I'r anterliwtwyr mae enw pob cymeriad yn enw bwriadus, arwyddocaol, a'r rhan fwyaf ohonynt yn dilyn patrwm pendant: enw personol megis Siân neu Lowri, yn cael ei ddilyn gan epithet, rhyw ddisgrifiad o hynodrwydd y cymeriad, neu nodwedd ar ei bersonoliaeth boed honno'n rhinwedd neu'n ddiffyg, er enghraifft Siân Ddefosiynol (yn yr anterliwt *Pleser a Gofid* (1787))²⁵ a Lowri Lew (yn yr anterliwt *Tri Chryfion Byd* (1789)). Mae'r epithet yn mynd beth o'r ffordd tuag at esbonio natur y person dan sylw. Yn achos Lowri Lew ystyr *glew* fel rheol yw 'dewr': 'ym mhob gwlad y megir glew' meddai'r hen ddihareb. Ond yng Ngheredigion ail ystyr y gair yw 'cybyddlyd, crafangus'; digwydd ar lafar yn Arfon hefyd yn yr un ystyr,²⁶ ac yn yr anterliwt hon hithau, gellid tybio.

Yr enw personol *Gwenhwyfar*: beth yw arwyddocâd yr enw hwn? Yn ôl y clasuron nid enw ar un o dlodion distadlaff y gymdeithas wledig Gymreig yw Gwenhwyfar, ond enw gwraig y Brenin Arthur: 'Pryt honno ae thegwh a orchyfygei [holl wrageð] ynys prydein' yn ôl Llyfr Coch Hergest.²⁷ Yn dlysach na holl ferched hardd Ynys Prydain, manteisiodd ar rwyg a gogoniant ei safle yn y llys brenhinol: roedd hi'n hawddgar, yn hunanfeddiannol, ac yn rhydd i ddewis ei llwybr ei hun, fel y clywir yn



Twm o'r Nant, y Cambrian Shakespeare (trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru)
Portread olew o'r anterliwtiwr, baledwr, bardd a'r llenor gan Lewis Hughes, 1810, cyn ei farwolaeth ar 3 Ebrill: cafodd ei eni yn 1739 a dywed y llun ei fod yn 71 oed. Yn y portread hwn gwelir Twm yn gwisgo cap ysgafn, gwasgod gyda botymau uchel a ffrog-côt gyda botymau pres. Ymddengys ei fod yn gafael mewn ysgrifbin arian a roddwyd iddo yn wobwr gysur gan David Samwell yn dilyn Eisteddfod Corwen 1789.

chwedl ‘Culhwch ac Olwen’ ac ym mhob un o’r Tair Rhamant, sef ‘Owain’, ‘Peredur’ a ‘Geraint’. Dyna Gwenhwyfar y Rhamantau Arthuraidd Cymraeg. Beth am Gwenhwyfar yr anterliwt? Pa epithet sydd wedi’i dadogi arni? Gwenhwyfar Dlos? Gwenhwyfar Hoffus? Na. Nid Gwenhwyfar Dlawd, hyd yn oed, er ei bod fel llygoden eglwys. Y dewis epithet yw Gwenhwyfar Ddiog. A oedd gwraig y Brenin Arthur yn ddiog? Fel y clywir yn y Rhamantau nid oedd llawer o waith yn ei chroen,²⁸ ond eto nid oedd hi ddim diocach nag unrhyw wraig arall o’i safle. Yn sicr nid diogi oedd ei bai amlycaf. Yn llenyddiaethau Ewrop clywir bod Gwenhwyfar y chwedlau canoloesol yn anffyddlon i Arthur ac yn caru ar y slei gyda’i brif farchog, Lawnsloot, gan achosi yn y pen draw gwymp y deyrnas.²⁹

Y disgwyl yw fod Gwenhwyfar yr anterliwt yn debyg i’r patrwm o’r wraig o’r un enw a gyflwynwyd inni ar dudalennau ein llên ganoloesol. Nid felly. Mewn cyferbyniaeth â Gwenhwyfar y llysoedd crand y’n cyflwynir i Gwenhwyfar Ddiog. Gwrthosod mae Twm o’r Nant, nid dod â phethau cymharus at ei gilydd. Nodwedd ar anterliwt yw rhoi enw bonheddig, anrhydeddus ar gymeriad dianrhydedd, fel y gwelir yn achos Gwenhwyfar a’i chymar anterliwtiol – nid y Brenin Arthur, ond Arthur Drafferthus, Cybydd yr anterliwt.³⁰ Na, ni ddylid edrych i gyfeiriad ein clasuron canoloesol i ddod o hyd i ffynhonnell yr enw Gwenhwyfar Ddiog. Mae’n rhaid edrych i fyd y diarhebion i ddod o hyd i darddiad yr enw: ‘Diogi yw mam tlodi’.³¹

Rhan fechan fach sydd gan Gwenhwyfar Ddiog o ran hyd llinellau, ond rhan o bwys. Dyma gameo bach byr ac i bwynt. Dim ond unwaith yr ymddengys Gwenhwyfar ar y llwyfan, ond mae’r sbot a neilltuir iddi yn un disglair. Yn ei munudau prin o anfarwoldeb cyflawna dair swydd: ymryson â’r Cybydd,³² cyflwyno cân, ac ymryson â’r Ffŵl.³³ Dyna dri uchafbwynt gyrfa unrhyw gymeriad mewn anterliwt, sef ymddangos gyda’r ddau brif gymeriad (un ar y tro), a chanu cân, a chaiff Gwenhwyfar wneud y tri pheth: ni allai’r un cymeriad ddymuno gwell. At hynny caiff ddwy ymson fer, ac nid yw’n gorfod siarad â neb arall – rhyw fân gymeriadau llai. Delfrydol. Mae’r 234 llinell hyn yn odidog, yn llawn tensiwn a gwrthdaro, yn nodi’n slei lawer o wirioneddau, yn tynnu coes, ac yn dangos y byd fel ag yr oedd.

Daw Gwenhwyfar ar y llwyfan, yn hen wreigan wargrwm, i fegera. Mae hi’n

un o anffodusion yr ardal – ar drengi, yn wir, o newyn. Y person cyntaf mae'n ei weld yw Arthur Drafferthus. Tybed, tybed a fydd yn drugarog wrthi? Ond na, fe aeth ar ofyn y dyn anghywir. Arthur yw Cybydd yr anterliwt, ac nid oes ryfedd nad oedd Gwenhwyfar ddim gwell ei byd ar ôl sgwrsio ag ef. Un o draddodiadau'r anterliwt yw fod y Cybydd wrth ei fodd yn clywed am druenusrwydd o fewn y gymdeithas, yn enwedig am dlodi; byddai'n fêl ar ei fysedd, ac yn sicr ni fyddai'n awyddus i wneud dim i'w liniaru. Y newydd gorau iddo glywed â'i glustiau, meddai Cybydd yr anterliwt *Y Brenin Dafydd*, oedd fod y tlodion, ar drothwy'r Nadolig, ar fin marw o oerfel ar waelod ffos.³⁴ Dyna'n union y stereoteip o ddyn ag yw Arthur Drafferthus. Pery'r ddiallog hon rhwng Gwenhwyfar a'r Cybydd am 108 o linellau, a dim ond 32 o'r rheini sy'n eiddo Gwenhwyfar.

Ffars *à la* Brian Rix yw'r croesi cleddyfau rhwng Gwenhwyfar a'r Cybydd a thema'r gwrthdaro, sef tlodi, yn cael ei wneud yn destun gwawd. Pam mae Twm o'r Nant yn cymryd thema mor ddwys i godi hwyl? Roedd tlodi eithafol yn y gymdeithas ar gyfrif anghyfiawnderau amlwg, rhai o'r rheini newydd gael eu rhestru yn union cyn i Gwenhwyfar ddod i'r llwyfan. Roedd costau ar bentrefwyr oedd bron â bod yn amhosibl i'w talu – trethi uchel: treth ar geffylau fferm, er enghraifft, ac ar fulod hwsmonaeth a masnach.³⁵ Codid 'treth y golau', sef treth ar ffenestri, ar gymhelliad y Prif Weinidog William Pitt yr Ieuaf,³⁶ er mawr ddirmyg i'r Cybydd:

Ond am dreth y golau ar bob rhyw dwlc
Mae'r gair mai Pitt sy'n pwtio.³⁷

Sefydlwyd y dreth ffenestri am y tro cyntaf yn 1696 (yn niffyg treth incwm) gyda'r bwriad o drethu yn unol â modd a chyfalaf y trethdalwr. Yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd dwy ran i'r dreth: cyfradd unfurf o ddau swllt ar bob cartref, ac yna dreth ychwanegol os oedd mwy na deg ffenest yn yr adeilad, neu o 1766 hyd 1825 (sef yn ystod oes Twm o'r Nant) mwy na saith ffenest. O ganlyniad, briciwyd ffenestri nifer o adeiladau, codwyd adeiladau newydd gyda nifer fach o ffenestri ynddynt, ac weithiau adeiladau gyda gofod penodol ar gyfer ffenestri ond ei fod wedi ei fricio i mewn dros dro – o bosibl er mwyn eu gwydro yn ddiweddarach, pe diddymid y dreth. Diddymwyd y dreth ffenestri (ar unigolion a sefydliadau)³⁸ yn 1851.

Er yr anniddigrwydd dwfn ynghylch trethi o bob math credid mai diogi'r unigolyn yn hytrach na chymdeithas broblemus a barai fod gwerinwragedd yn begera. Ystyrid cardotes yn rhywun oedd yn ysbeilio cymdeithas, yn byw ar y wlad yn lle byw ar ei henillion ei hun.³⁹ Petai Gwenhwyfar yn llai diog, meddir, byddai popeth mewn trefn. Edliwia'r Cybydd ei bod lawn mor ddiog hyd yn oed pan oedd ei gŵr mewn gwaith a'r plant ar eu prifant. Roedd hi'n dda ei byd bryd hynny a mynnai eistedd a rhoi ei thraed i fyny i yfed te:

Ac ysmocio nes aeth hi yr un lliw â'r Gŵr Drwg,
Hen boced, gan fwg dobaco. (*PCG* Ashton, t. 18)

Sut daeth cymaint tro ar fyd i'w rhan? Arthur sydd â'r stori.

Roedd ei gŵr hi'n porthmanaeth draw ac yma,
A *llafn o bwrs melyn, ac yn walch pur ysmala, *anferth
A hithau gartre yn diogi ac yn ymdroi
Mor foethus, wedi ymroi 'ddifetha.

Ond o dafarn i dafarn yr oedd e'r hen borthman diafol,
Heb fawr edrych at na thir na chatel,
Ond canu efo'r tannau, ac ymlid puteiniaid,
A gwneud bargaenion a cholli, na bu'r un cyn erchylled.
(*PCG* Ashton, t. 20)

Cic i gydwybod ddiffygiol y porthmyn a geir yma. Brid go frith oedd y porthmyn a chofnodwyd hanesion niferus o dwyllo, er enghraifft cofnod gan Richard Lloyd mewn llythyr at Kenrick Endisbury yn 1637:

My nephew Wynne, the new sheriff of Co. Denbigh, having been entrusted with the collection of the Ship Money, entrusted a drover with the return of £400, in payment whereof the drover has disappointed him, whereby he is in danger of being committed before the Lords.⁴⁰

Oherwydd natur anwadal eu bywyd aeth sawl porthmon yn fethdalwr cyn diwedd ei oes a dyna'n union fu diwedd gŵr Gwenhwyfar, torri am filoedd o bunnau.



Thomas Rowlandson (1756–1827) 'Rhwyng Dolgellau a Machynlleth' c. 1797
(trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru)

Llwyr wfft i borthmyn am dwyllo'r byd;
O! na bydden' hwy gyd yn grogedig!

Dyma hithau, Gwenhwyfar, wrth ei hen gynefin,
Beth bynnag fyddai'r ennill, ni hidiai hi ronyn;
Hi eisteddai mor bwyllus, ac a smociai ei phibellaid,
Heb feindio'r un *difyn mewn gwartheg na defaid. *darn
(PCG Ashton, t. 20)

Mae gan y difenwr ribed hir o enwau sarhaus i'w lluchio at Gwenhwyfar, yn eu plith: cwman ci (ymadrodd difriol am berson gwargrwm, ond defnyddir *cwman* hefyd am ben ôl ci); hen beunes; hen Iddewes ddiog (defnyddir *Iddewes* yn ddifriol yma a geilw hithau'r Cybydd yn *erchyll Iddew* gyda hyn);⁴¹ yn un baeled,/Yn eiste'n domen (yn un lwmp,/Yn eistedd yn domen ddisymud); yn hyll ei gwawr,/Yn yslefrian mewn mawr yslefri (yn hyll ei golwg,/Yn glafoerio mewn poer mawr); Gwyneb hwch mewn gwenith; hen garen (hen wrach); y g'nawes bendew (dynes gas, sydd hefyd yn dwp a ffôl); hen hŵr dafod-ddrwg:

Taw, hen hŵr dafod-ddrwg, ni fu erioed dy futrach,
 Na'th ddiocach, na'th ffeiddiach mewn un man,
 Hen *gwrrwm, na'th anhawddgarach. *person cefngrwm
 (PCG Ashton, t. 20)

Yma mae'r stereoteip traddodiadol o dlodi yn cael ei le a thestun beirniadaeth ydyw i'r Cybydd – ac i'r Ffŵl, gyda hyn. Dau gymeriad stoc yw'r Cybydd a'r Ffŵl sy'n ymddangos yn anterliwtiau Twm o'r Nant i fwrw'u llid ar natur wael, afrywiog y ddynoliaeth, ac i'w cystwyo am eu methiannau amlwg wrth geisio byw bywyd anrhydeddus ym mha gongl bynnag o'r byd y'u gosodwyd, ac ar ba lefel bynnag o'r hierarchiaeth gymdeithasol, boed hynny'n frenin, yn ustus, yn esgob, neu'n hwsmon. Nid oes yr un dyn yn llwyddo'n well na'i gilydd wrth y dasg o fyw bywyd clodwiw, meddir, a 'Gwagedd o wagedd ... gwagedd yw'r cwbl'.⁴² Oferedd llwyr. Dim rhyfedd fod Gwenhwyfar Ddiog yn cael ei chodi'n gocyn hitio i ddangos bod pawb, waeth beth fyddo'u lle yn y gymdeithas wledig neu ddinesig, yn methu â chynnal safonau'r gymdeithas honno. Daw Gwenhwyfar dan lach y ddau feirniad cymdeithasol, ac er mai sylwadau doniol yw beirniadaeth anterliwt, mae'n ddeifiol. Nid oedd yn arfer gan Twm o'r Nant hanner dweud dim byd. Yng ngeiriau Caledfryn, 'Llabyddio â meini, nes tori yr esgyrn yn chwilfriw, yr ydoedd'.⁴³



Rhinallt y Cybydd (Gerallt Rhun) a Syr Tom Tell Truth y Ffŵl (Cefin Roberts) yng nghynhyrchiad Norah Isaac o Tri Chryfion Byd yn Sain Ffagan, 1975.

Mae paru tlodi a diogi yn hen arfer. Yn yr anterliwt *Cyfoeth a Thlodi* (1768) mae Hywel Dordyn y Cybydd yn arllwys ei lid ar bob diogyn:

Yn wir, nid alla'i aros gwranddo
Ar bobl greffu, yn nadu, ac yn udo;
Bydd fy ngwaed i yn cynhyrfu trwy fy holl gnawd
Pan welwyf ddyn tlawd yn begio ...

Wel, anaml mae neb yn mynd i dlodi
Ond o ddioga a difaterwch, ni wiiw mo'r taeru;
Ac o ran camhwsmonaeth wrth drin y byd
Y maent hwy i gyd yn torri.⁴⁴

Yn ôl ei chyffes ei hun mae Gwenhwyfar 'yn ddigon tlawd ac amddifad' ac mae'n gofyn cardod gan y Cybydd deirgwaith. 'Rhad Huw yma, a rowch chwi dama'd?' meddai Gwenhwyfar wrth daro llygad arno am y tro cyntaf; yr un yw ei chais eto tua chanol eu gwrthdaro, ac yna meddai wrth i'r Cybydd ymadael â'r llwyfan:

Gwen: Gobeithio y rhowch chi, cyn eich myned,
Fwyd neu lety, a minnau cyn dloted.
Arthur: Na chei gen i, tra bwy yn fy nghof,
Y *tân a'm twymo un tamed. *tân uffern
(*PCG Ashton*, t. 21)

Troi tu min a wna Arthur. Gesyd y bai am dlodi Gwenhwyfar yn swp ar ei hysgwyddau hi'i hunan. Dim ond ei haeddiant oedd gorfod byw o'r llaw i'r genau, yn llwm ei byd. Efallai fod Arthur yn gweithredu ar gyngor un arall o'r diarhebbion, 'Gwae a wnêl dda i ddiawg.'⁴⁵

Sut mae Gwenhwyfar yn ymateb? Wrth i Arthur weld bai a mynd i hwyl wrth ei difrïo, meddai Gwenhwyfar:

Dyma'r peth a geir os eir yn dlawd,
Rhaid diodde gwawd a choegni. (*PCG Ashton*, t. 17)

Mae pobl yn haerllug meddai, ac yn dirmygu'r tlawd a'r anghenus:

Nid oes mo'r help, mi glywa',
Rhaid i'r gwan ddioddef pob trahaustra. (*PCG Ashton*, t. 20)

Er bod Arthur yn ei blagardio am beidio â gwneud digon i'w gosod ei hun ar ffon uwch ar yr ysgol gymdeithasol, mae Gwenhwyfar yn ddi-sigl ei barn.

On'd ydyw'r ddihareb yn dweud gwir godidog?
Y neb anwyd i rôl nid eiff byth i bum ceiniog.⁴⁶ (*PCG Ashton*, t. 18)

Mae'r un sydd â chelc yn ei boced yn edrych i lawr ei drwyn ar y sawl sy'n dlotach nag ef, ac yn ei ystyried yn is ei statws. Priodola'r statws isel hwnnw i elfennau anianol, mewnol, cynhenid yn y tlotyn, pethau megis diffyg symbyliad, diffyg ymdrech, diffyg menter, a diogi. Ond mae'r tlotyn ei hun, ar y llaw arall, yn barotach i briodoli ei statws i amgylchiadau allanol, pethau megis diffyg cyfleon, gwahaniaethu anffafriol o fewn y gymuned, ac i elfennau sydd tu hwnt i'w reolaeth. Teimla fod y sawl sydd ar waelod y domen gymdeithasol yn cael ei ddarlunio'n awtomatig yn y modd mwyaf negyddol. O ganlyniad nid oes dim i'w ddisgwyl ond rhagfarn ac anghymeradwyaeth. Gan mai'r tlotyn a roddodd ei hun yn y strach yn y lle cyntaf, mae yn y pydew o'i ddewis ei hun, meddir. Felly, rhyngddo ef a'i bethau.

Mae Gwenhwyfar yn cardota wrth draed Arthur Drafferthus y Cybydd deirgwaith. Yn ystod yr ail gais am elusen mae Gwenhwyfar yn newid tac ac yn apelio at elfen uwch yng nghymeriad y Cybydd.

Onid ydyw'r Gair yn dweud yn gywren
Fod bendith i bawb a roddo elusen? (*PCG Ashton*, t. 19)

A dynerwyd calon y Cybydd gan yr addewid o dderbyn bendith? Dim o gwbl. Mae'n dal yn ddidrugaredd, os nad yn ymosodol:

Y fendith orau fasai mewn pryd
Eich curo chwi o'r byd, hen *garen. *gwrrach
(*PCG Ashton*, t. 19)

Coleddir sentiment tebyg gan Rondol y Rowndied, Cybydd yr anterliwt *Pleser a Gofid*: ‘Mae cicio *beggars* o’r gorau debyga i’, meddai.⁴⁷ Mae’n arfer gan Twm o’r Nant godi cwestiwn megis tlodi ac yna fwrw iddi â’i ateb. A dyma un o’r gwahaniaethau pwysicaf rhwng anterliwtiau Twm o’r Nant ac eiddo’r anterliwtwyr eraill. Nid dim ond adrodd stori, cofnodi a disgrifio a wna Twm o’r Nant, ond athronyddu ar gefn hynny. Pam mae’r pethau hyn yn digwydd? Sut daeth y problemau hyn i fod? Beth ellir ei wneud i’w datrys, os unrhyw beth o gwbl?

Nid yw Twm o’r Nant yn ôl o gynnig goleuni ac atebion, weithiau ar gân er mwyn i’r neges aros yn y cof. Enghraifft o hynny yw ‘Cân y Ffigysbren’ o’r anterliwt *Pedair Colofn Gwladwriaeth* (1786), cân Madam Duwioldeb Crefydd, i’w chanu ar ‘Sunselia’, neu ‘Betty Brown’.⁴⁸ Rhybudd rhag ffolineb cybydd-dod yw’r gân. Mae’r Cybydd yn debyg i’r ffigysbren diffrwyth a drafodir yn un o’r damhegion,⁴⁹ yn cael ei adael am ychydig i weld a fydd yn newid ei ffordd. Y drafferth yw fod y goeden ffigys yn y Beibl yn cynhyrchu digonedd o ddail mawr, ond nid yw’n ffrwytho o gwbl, ac mae’r gwinllannwr yn awyddus i’w thorri i lawr er mwyn ei rhwystro rhag tynnu maeth o’r pridd i ddim pwrpas. Y darlun yw hwn: er bod Duw yn cynnig help i’r ffigysbren gynhyrchu ffigys aeddfed, sef cynnig help i’r Cybydd gynhyrchu ffrwyth melys haelioni, ‘gwrthod yn gas’ mae’r Cybydd. Yn unol â’r patrwm ysgrythurol, yn hytrach na chlywed y gwinllannwr yn deud ‘Tor ef i lawr!’ estynnir blwyddyn o ras, ‘Gad ef eleni eto, imi balu o’i gwmpas a’i wrteithio’ er mwyn iddo gael cyfle i sugno maeth, i gael ei adfywio – rhoi tail ar y gwreiddiau, fel y dywed llinellau’r gân. Ond os parheir i wrthod gras, yn y diwedd ‘Y Farn a’i gair taeredd yw: Tor ef i lawr!’ Dyma’r ddau bennill:

Betty Brown



Pwy heno'n wahanol, ddull ddynol, all ddweud
Na ddarfu Duw gynnig yn unig ei wneud
Yn ddawnus feddiannol o reol ei ras,
Ond ein bod ni trwy bechod yn gwrthod yn gas?
Trwy glefyd a loes, a llawer byd croes,
Trwy amryw rybuddion, arwyddion a roes,
Mae'n cynnig oes gwiw i'r gwaetha sy'n fyw,
Rhyfeddwn ei foddion! Mor dirion yw Duw!

Mae'n cynnig ymwared er trymed ein trwyth
Rhag torri neu gopi'r ffigysbren ddi-ffrwyth!
Mae'n erfyn cael blwyddyn er sugn i'w sail,
Gan gloddio i'w adfywio, ac anturio rhoi tail,
Ac yma os drwg wawr a fydd, er poen mawr,
Y farn a'i gair taeredd yw 'Tor ef i lawr!'
A hon yw'r farn ffri, O! crynwn mewn cri,
Rhag ofn mai rhai diffwrwyth mewn adwyth ym ni. (PCG Ashton, t. 59)

Mae'n rhaid ei fod wedi taro ar feddwl o leiaf un neu ddwy yn y gynulleidfa: a ninnau wedi dod yma i wrando ar jôcs, yr hyn a arlwyir yw pregeth. Cyfyd hynny'r cwestiwn, a oes caniatâd i gomedïwyr fod cymaint o ddifrif â hyn,

yn cyfnewid gwamalrwydd am ddatganiadau mor ddwys? Dyma gryfder Twm o'r Nant, llithro o un cywair i'r llall – mor slic – bron heb i neb sylwi ar y symudiad. Ond pan mae'r anterliwt ar ben beth sy'n aros yn y cof? Y siarad mawr, nid y mân-siarad er donioled yw. Mae yn yr anterliwt fôr o ddoethineb i'w gario adref i gnoi cil drosto.

Cyflwyna Gwenhwyfar Ddiog ddeuddeg llinell o ymson cyn achub ar ei chyfle i ganu⁵⁰ ar y dôn 'Sweet William',⁵¹ cân o ddeg llinell ar hugain (chwe phennill o bum llinell yr un). Testun ei gân yw tloidi a diogi, a pherthynas y ddeubeth â'i gilydd. Cana gân y ddynes ddiog, ar yr amod gogleisiol 'Os ca i yma le i eistedd i lawr'. Cyffes sydd ganddi a rhybudd i ferched y gynulleidfa i ochel y fath fywyd ag a lediodd hi. Sut byddai dyn yn chwarae'r rhan hon – ai mewn llais main, ffalseto efallai? Sut byddai'n ymagweddu – yn galondoredig, edifeiriol, neu a'i dafod yn ei foch? Cenir ar yr alaw 'Sweet William', alaw a ddefnyddir unwaith yn unig yn anterliwtiau Twm o'r Nant.

Pob ladi o ddynes led *ddiddeurwydd	*diamheuaeth
Gwrandewch ar gwynion gwrach *ddigynnydd:	*disymud-ymlaen
Y fi sy'n adrodd fy musgrellni	
A maint o aflwydd a ddaeth imi,	
*Erwina digwydd, o ran diogi.	*greulonaf ffawd

Pan es i ddechrau, doniau dinerth,	
Trin y byd a phob rhyw drafferth	
Cefais ganwaith, cofus gen i,	
Am ddilyn mynych *serthnych syrthni	*llesg a sarrug
Golledion dygn o ran diogi.	

Pob *trawsneiddiwch trist, anniddan,	*gwrthnysigrwydd truenus
Pob *taeog wallau yn tŷ ac allan,	*anfoesgar ddrygau
Pob rhyw anap a thrueni,	
Pob *aruthr ddamwain a ddaeth imi,	*arswydus
*Anrhaith dugas o waith diogi.	*dinistr chwerw a chas

Fy *hyswiaeth, doraeth dyrrus, *dyletswydd gwraig tŷ, toreth bentyrrus	
Aeth yn ofer waith *anafus:	*amherffaith
Y cig, y caws a'r menyn gen i	

A sbwyliai'n aml o ran imi
Wneud *camdrinogaeth yn fy niogi.

*camdriniaeth

Gan hynny, ferched, rwy'n eich annog
I gymryd siampl rhag troi'n ddiog;
Mae un *anhwsmon yn well i'w gyfri
Ac yn gynhesach nag *anhyswi
Lle bo redegog *bâr a diogi.

*ffermwr gwael, didoreth
*gwraig tŷ annarbodus
*llid/adfyd

Mae'r gŵr doeth yn rhoi canmolïaeth
I wraig dda, rinweddol, berffaith;⁵²
Rwyf innau'n llwyr wrthwyneb iddi,
Cymerwch rybudd o'm *trueni;

*adfyd

Ym mhob ymddygiad gwyliwch ddiogi. (PCG Ashton, tt. 22–3)

Trydedd tasg Gwenhwyfar yw ymryson â'r Ffŵl, Syr Rhys y Geiriau Duon – un arall sy'n galed iawn ar Gwenhwyfar oherwydd ei diogi, ac sy'n ei beio am ei hamharodrzydd i ymuno â'r gweithlu. Haera fod ei diffyg uchelgais yn creu ac yn cynnal ei thlodi, syndrom y dylid ei gorfodi allan ohono. Ond sut? Gwelir yma wrthdaro diwylliannol: diwylliant diogi benben â'r foeseg Brotestannaidd gyda'i phwyslais ar waith. Dygnu arni, dyna'r ffordd ymlaen. Un o achosion mwyaf tlodi, meddir, oedd fod rhai yn ddibris o werth gwaith ac yn ymddwyn yn hollol anghyfrifol wrth ei wftio. O fynd ar ofyn Syr Rhys y Geiriau Duon buan mae Gwenhwyfar yn cael cynnig ffisig at ei hanhwylder – gwrthgyffur i dlodi. Fel y Cybydd nid yw yntau chwaith am roi cardod iddi, ond yn hytrach mae'n rhoi cyngor brwd ynghylch sut i ennill bywoliaeth, hyn oll yn para 84 o linellau, a dim ond deg o'r rheini sy'n eiddo Gwenhwyfar.

Mi ddysgaf fi i'ch llonni yn llawn
Fuddiol iawn *gelfyddyd.
(PCG Ashton, t. 23)

*crefft, galwedigaeth

Nid yw hynny at ddant Gwenhwyfar:

Ni waeth iti dewi â'th ddwndwr dibris,
Yr wy'n rhy hen i fynd yn brentis. (PCG Ashton, t. 23)

Ond nid prentisiaeth sydd gan Syr Rhys mewn golwg. Mae wedi taro ar yr union beth a fyddai'n gweddu iddi – swydd wedi'i mesur ar ei chyfer.

A chwithau'n hen fenyw lysti am gerdded,
Cewch gystal bywoliaeth ag allai chwi'i weled,
A chwmpni merched o le i le,
A'ch gwala o de i yfed.

Ond rhaid i chwi ddysgu yn ddwysgall
Fedru dangos i fenywod angall
Eu ffortun yn dwt, mewn cwpan te,
Fel y gallont hwy'n ddiau ddeall. (PCG Ashton, t. 24)

Y swydd ddelfrydol iddi yw crwydro'r ardal yn dweud ffortiwn. Nid oedd hwn yn broffesiwn anrhydeddus yn y Gymru wledig yn ystod y ddeunawfed ganrif ac mae Syr Rhys yma yn tantro am yr arfer, dan gochl ei annog.⁵³ Ystyrid y proffesiwn yn un twyllodrus, a'r sawl a'i dilynai yn ystrywgar a digydwbybod.⁵⁴ Braidd yn betrus yw Gwenhwyfar i dderbyn cynnig Syr Rhys i'w dysgu i fod yn 'ffortun teller talog'. Mae ganddi ddau ofid. Ei phroblem gyntaf yw hon: 'Mae ofn na alla'i ddim oddi wrthi', hynny yw nid oes ganddi'r syniad lleiaf sut i fynd o gwmpas y dasg, ond mae gan Syr Rhys ateb parod.

Gwen: Mae ofn na alla'i ddim oddi wrthi!

Rhys: Ni fu erioed beth hawsach, troi cwpan a'i throsi,

A dweud peth a'u plesio, *wrth eich pen eich hun, *o'ch pen a'ch pastwn
Dyna'r cyfan, f'ŵyr dyn, amdani. (PCG Ashton, t. 24)

Yr ail ofid sy'n brathu cydwbybod Gwenhwyfar yw hwn, 'nis gwn i a ydyw'n ddrwg ai peidio.' Petai hi wedi talu sylw manwl i Lyfr Deuteronomium yn yr Hen Destament byddai wedi gweld yno yn ddigon plaen y gorchymyn a ganlyn: 'Nid yw neb yn eich mysg ... i arfer dewiniaeth, hudoliaeth, na darogan; nac i gonsurio, arfer swynion, ymwneud ag ysbrydion a bwganod, nac ymofyn â'r meirw. Y mae unrhyw un sy'n ymhél â'r rhain yn ffaidd gan yr Arglwydd.'⁵⁵ Dyna fyddai ateb parod pob Methodist, a phob crefyddwr o bob enwad, ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Ateb gwahanol iawn sydd gan y Ffŵl.

Mae'r arfer honno wedi setlo'n syth,
Nid rhaid i chwi byth mo'r hidio.

Nid oes ond y ddichell a'r cyfrwystra
Yn mynd ymlaen yn y busnes yma,
Cans holi ac ymofyn i ddeall eu *ysgwars *straeon ymffrostgar/annhebygol
Bydd y ffortun tellers tala.

Lle gweloch wraig ieuanc iachus
Yn berchen hen ŵr oedrannus,
Dywedwch wrthi fod hwnnw ar dranc
Ac y caiff hi ddyn ieuanc nwyfus.

A lle bo ŵr go ddawnus, a gwraig ddidd'ioni
Dywedwch wrth hwnnw bydd farw'r hen ledi
Ac y caiff ef ail wraig o fenyw deg,
Fwyneidd-deg, lwysteg, lysti.

Felly, dywedwch wrth bawb trwy weniaith
Y peth a feddyliocho a blesio'u naturiaeth.
Os plesiwch y merched ar hyd y byd
Chwi gewch hoff hyfryd ffafraeth.

Cerddwch trwy degwch hyd deiau'r cymdogion,
Dysgwch ofer-ddadwrdd, a dehongli breuddwydion,
Chwi gewch fywoliaeth, mi wranta fi,
A chysgu a diogi digon. (*PCG Ashton*, t. 25)

Nid oes angen i Gwenhwyfar golli cwsg yn poeni am gydwybod euog, neu'n poeni a yw dweud ffortiwn yn beth cymeradwy ai peidio. Bywoliaeth y diafol yw deud ffortiwn meddir, ac o'r herwydd ef yn hytrach na Gwenhwyfar a fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am bob camgymeriad a wneir, ac am bob celwydd golau ac ymestyniad ar y gwir, oherwydd gŵyr pawb mai twyll a dichell yw hanfod yr arfer o ddweud ffortiwn. Darbwyllir Gwenhwyfar. 'Mi bwnia gelwydd galant' meddai, cystal â'r un 'ffortun teller' yng Nghymru.

Mi gaf bellach yn ddiballu,
Ar f'engoch, fywoliaeth fwyngu;
Mae dywedyd ffortun i ambell ffrind
Yn ddigrifach na mynd i grefu. (*PCG* Ashton, t. 25)

Dyna'r gyntaf o'r tair gwraig a drafodir yma, sef Gwenhwyfar Ddiog. Yr ail enghraifft o blith y criw difyr o ferched anterliwtiol yw Alis ach Elwa, sy'n briod â Mr Cybydd-dod yn yr anterliwt *Cybydd-dod ac Oferedd* (c. 1799). Barnai'r cyhoeddwr Isaac Foulkes, Lerpwl, ym mis Rhagfyr 1870, drigain mlynedd ar ôl marwolaeth Twm o'r Nant, 'fod yr Interliwd hon yn rhagori yn fawr mewn moes ar ei chwaer interliwdiau a gyhoeddwyd amryw droeon o'r blaen', a bod hynny'n cadarnhau ei ragdyb 'mai un o gynyrchion rhan olaf ei oes' ydyw. Er nad oes sôn amdani yn *Hunangofiant* Twm o'r Nant (1806), cyfeiria Twm at *Cybydd-dod ac Oferedd* (neu'n hytrach at 'Cydwylbod ac Oferedd') mewn llythyr at Owen Jones 'Owain Myfyr', dyddiedig 13 Ionawr 1800,⁵⁶ ac felly gellir ei dyddio i c. 1799. Meddai'r cyhoeddwr mewn nodyn 'At y Darllenydd' yn 1870:

Bu yr ysgrif (yr hon sydd yn ol llaw y Bardd ei hun), mewn cadwriaeth dda a dyogel yn Liverpool er's llawer blwyddyn; ond ofnwn mai i dir anngof y syrthiasai, pe na ddaethai y llengarol Ioan Lleifiad o hyd iddi yn ddiweddar.⁵⁷

Tro ffodus, felly, yw ein bod wedi cael cyfarfod â chymeriadau'r anterliwt hon o gwbl.

Yr olygfa agoriadol yw cyfarfod hapus y ddau brif gymeriad, sef Mr Oferedd, y Ffŵl, a Mr Cybydd-dod. Maent yn eistedd yn y dafarn leol a thestun eu sgwrs yw'r hen ffefryn Cymreig 'Pwy sy'n perthyn?' Achyddiaeth yw'r pwnc dan sylw, sef 'graddau carenydd (hyd at y seithfed neu'r nawfed ach)'.⁵⁸ Roedd llinach bwysiced i'r gwerinwyr ag ydoedd i'r uchelwyr, ond yn yr anterliwt hon olrhain llinach y ddau haniaeth Mr Cybydd-dod a Mr Oferedd yn nhermau perthnasau haniaethol a wneir. Meddai'r Ffŵl am linach Mr Cybydd-dod:

Onid eich tad chwi ydyw Balchder tirion
Sy'n byw yng Nghwm Hunan, ym Mhentre Mamon?

A'ch mam a genhedlodd lawer o blant,
Fe'i gelwid hi Chwant y Galon.⁵⁹

A dyma dras Mr Oferedd:

Fy nhad i ydi Mr Anghymedrollder
A Mam ydi Mrs Blysig o ben Stryd Pleser;
Maen nhw'n byw acw, just ar gyfer y Jêl,
Tan *sign* yr anifel ofer.⁶⁰ (CO Ashton, t. 77)


A thrwy ryw haniaethau eraill, Madam Gormodedd a Mr Di-ras yn eu plith, deuir i'r casgliad fod Cybydd-dod ac Oferedd yn perthyn i'w gilydd. Mae'r cwrw'n flasus a'r sgwrs yn felys a Mr Cybydd-dod yn gorfod cyfaddef:

Ni yfais i byth mor erwin
Er diwrnod *birthday* Syr Watkin⁶¹
Pan oedd y gwŷr mawr yn eu *merry-mood*,
A'r cwrw yn ffrwd gyffredin. (CO Ashton, t. 75)

Ei diwedd hi oedd fod y cwrw wedi mynd i'w ben, a hynny'n rhoi cyfle i Mr Cybydd-dod ganu ar yr alaw – beth arall ond – ‘Glan Meddwod Mwyn’.⁶² Cyn canu mae'n ebychu ar enw da Wrecsam:⁶³

Nad elwy' i fyth i Wrecsam, gan ein bod ni mor *wacsaw, *gwamal
Oni fynna' i ganu'n ddiddanol, pe costie imi *ddeunaw. *18 ceiniog
(CO Ashton, t. 78)

Dyma lle mae Alis yn camu i'r stori. Yn wahanol i'r darlun arferol o wraig i gybydd mae gan Alis berthynas dda â'i gŵr: nid yw'n anffyddlon iddo, nid yw'n ei dwyllo'n ariannol, ac nid yw'n ei ddirmysgu, er ei bod o dro i dro yn colli ei limpyn ag ef. Mae Alis yn dda ei byd – yn gyfoethog, yn wir, ymhlith ei chyfoedion gwledig. Er hynny mae gan Alis ei hochr dywyll, a ddiffinnir yn ei henw. Roedd Alis yn enw digon cyffredin yn y Gymru wledig ond mae'r epithet yn llawn arwyddocâd: Alis ach Elwa, Alis o linach Elwa, sef gwneud proffid. Yn y Gymru sydd ohoni mae enw gwell nag a fu i'r sawl sy'n gwneud elw, ond yn sicr i Twm o'r Nant enw diffrïol yw Alis ach Elwa. Lledawgrymir ei bod wedi manteisio'n annheg er mwyn casglu golud a bod



Syr Watkin Williams Wynn II (1749–89) (trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru)

mesur, dros fesur yn wir, o gynildeb yn ei buchedd – gwraig ddelfrydol, felly, i Mr Cybydd-dod. Mae hi'n bowndio ar y llwyfan a'i thafod hi'n tasgu tân:

O! gwyneb cath *goediog, anodd i'th gadw,	*o'r coed, gwyllt
Ai dyma lle rwyf ti yn cadw *syrwrw?	*twrw, baldorddi
(CO Ashton, t. 84)	

Daethai o hyd i'w gŵr yn y dafarn, newydd ddeffro o gysgadrwydd un wedi cael diferyn yn ormod. Yn ei feddwdod roedd wedi archebu diod a phapur newydd. Meddai:

Mae arna i eisie gwybod
Pa'r newydd sy oddi wrth y Ffrancod,
A pha sut y mae'r Americans,
Ac ymhle mae'r Tranbans⁶⁴ yn ymosod.

Pe clywn i fod y Ffrancod yn dŵad i Gymru
Mi guddiwn fy arian cyn nos yfory. (CO Ashton, t. 82)

Dysgodd Mr Cybydd-dod lawer o ddoethineb yn y papur newydd.

Mi wela wneud o'r Lord North yn wrthun –
Eisie gwneud bargaen efo General Burgun.⁶⁵ (CO Ashton, t. 83)

Roedd Lord North, y Prif Weinidog, a General Burgoyne, un o swyddogion byddin Prydain yn ystod Rhyfel Annibyniaeth America, yn ddau golsyn ar groen y Cybydd ar gownt cost y rhyfel: 'Naw can mil a dwy fil ar bymtheg' meddai, a'r bobl gyffredin fyddai'n gorfod ysgwyddo'r draul. Yn dilyn y siarad ymfflamychol hwn ar lawr y dafarn y daw Alis i'r llwyfan am y tro cyntaf. Naw llinell a deugain yw hyd y sgwrs gyntaf rhyngddi hi a'i gŵr: dim ond 17 o'r llinellau hynny sy'n eiddo Alis. Thema'r cyfnewid yw ble gallant orau guddio eu cyfoeth gan eu bod ar ddeall fod y Ffrancwyr ar fin cyrraedd sir Ddinbych i'w hysbeilio.

Cybydd: P’run ore, meddi di, rhoi’r aur yn run man,
A’u gwahanu nhw o’r arian gwynion?

Alis: Ond ydi’r aur wedi eu gwahanu
Yn y pot coch tan ben y gwely
A’r aur yn y gist? Beth ddarfu’r gŵr!
Rydw i’n ddigon siwr o hynny. (*CO Ashton*, tt. 84–5)

Mae’r elfen o ffars yn cynyddu, a’r cynllun yn mynd yn fwy eithafol wrth y funud.

Cybydd: Ai tybed na bydde’n well i ni, Ali,
Fynd a chuddio’r aur yn yr Eryri?⁶⁶ (*CO Ashton*, t. 85)

Na, nid yw’n dod i hynny, ond mae gan Mr Cybydd-dod air o rybudd i’w wraig yn y cwpled:

A chymer ofal, er mwyn y Pab,
Heno rhag dy fab dy hunan. (*CO Ashton*, t. 85)

Roedd gan Alis a Mr Cybydd-dod fab o’r enw Nimble Dick oedd yn llestair mawr iddynt yn eu hymdrech i bentyrru arian. Roedd priodas sefydlog gan Alis a Mr Cybydd-dod, ond ni chynhwysid eu mab Dici yn eu bywyd teuluol dedwydd; ef oedd y garreg rwystr oedd yn diflasu bywyd y cwpwl barus oherwydd ei fuchedd afradlon. Ac roedd Nimble Dick yn llygaid i gyd. Ar y noson dyngedfennol pan oedd Alis a Mr Cybydd-dod yn claddu eu pres yn y ddaear, roedd Nimble Dick yn gwylio’u mynd a dod i lawr yn y berllan ac wedi sylwi’n union ble roedd pob darn arian wedi’i gladdu. Mwy na hynny, roedd wedi codi peth o’r celc, ac wedi rhannu ei lawenydd â Mr Oferedd, o bawb, gelyn y teulu cynnil.

Nimble Dick: Wel, gad inni eiste’n fawr ein rhoch,
Ac yfed iechyd da yr hen bot coch. (*CO Ashton*, t. 94)



'Actio Anterliwt yn oes Twm o'r Nant' Richard Ll. Huws
(trwy ganiatâd caredig Daniel Huws)

Mae'n draddodiad yn yr anterliwtiau fod y Cybydd yn cael ei dwyllo gan naill ai ei wraig, neu ei blant. Felly yma. Nid oes gan Nimble Dick fawr o feddwl o'i rieni, y naill na'r llall ohonynt (dau Gardi da os bu dau erioed). Meddai am ei fam:

Pe gwele hi fi'n marw yn hyn o le,
Nid y hi a ranne ronyn. (CO Ashton, t. 95)

Dyma wers iasol i'w dysgu am Alis yn ystod ei hymweliad cyntaf â llwyfan yr anterliwt.

Ymddengys Alis ar y llwyfan ddwywaith, ac mae'r ail ymweliad yn wahanol iawn ei gywair i'r un cyntaf. Y tro cyntaf roedd hi yng nghwmni rhai o'r un anian â hi ei hun a'i gŵr barus. Yn gefnlen iddynt roedd cefndir busnes y dafarn, yn llawn hen ddynion moplyd yn lleisio'u barn am bopeth dan haul Cred, ac yn rhannu cyngor clwc i unrhyw un oedd yn fodlon gwrando. Pan ddaw Alis i'r llwyfan am yr eildro mae'r amgylchiadau yn dra gwahanol. Un o orchestion yr anterliwt yw'r golygfeydd hynny lle ceir dau berson yn sgwrsio i ddim pwrpas. Nid yw eu dau fyd gwahanol iawn yn closio, ddim hyd yn oed am eiliad. Deuant at bob pwnc trafod o gyfeiriadau sydd am y pegwn â'i gilydd, a pharhânt i sathru cyrn ei gilydd drwy gydol eu sgwrs, gan gyflwyno'n frwd sylwadau a daliadau sy'n amlygu'r gwahaniaeth rhwng y ddau eithaf. Fflach felly o athrylith yw'r sgwrs rhwng Alis ach Elwa a Cariad Perffaith.

Cyn dod at eu sgwrs cyflwynir yma drydedd cynrychiolaeth o'r ferch yn yr anterliwtiau. Eisoës gwelwyd un o'r merched tlawd ac enghraifft o'r merched ariangar; yn awr cawn gyfarfod ag un o'r haniaethau. Mae nifer ohonynt, yn ferched a dynion, wedi britho tudalennau'r anterliwt drwy'r canrifoedd – Mr Cybydd-dod, Mr Oferedd, Madam Gwirionedd, Madam Duwioldeb Crefydd, Madam Rhagrith, a'r ferch o haniaeth sydd dan sylw yma, Cariad Perffaith. Diben y cymeriadau hyn yw tynnu sylw at briodoleddau cryf mewn personoliaeth, eu cyflwyno i sylw'r gynulleidfa, eu dadansoddi a'u crynhoi, fel bod pawb yn eu deall yn well. Cariad Perffaith: beth yw hwnnw?

Ymddengys fod Twm o'r Nant o'r farn mai Alis yw'r un sydd fwyaf o angen dysgu beth yw cariad. Mae Cariad Perffaith yn ymddangos iddi yn union ar ôl i Alis fod yn bwrw'i bol am ei mab gwastraffus. Dynes dan ei baich yw Alis. Pan oedd hi'n ifanc roedd hi'n ddiotal, yn malio dim am ddim, yn casglu ei golud ac yn cerdded law yn llaw â'i chybydd o ŵr a'r ddau yn gwbl gytûn eu nod, ond erbyn hyn mae hi agos â thorri ei chalon oherwydd ei mab cynddeiriog o ddiffaith.

A magu plant, medd rhai, mor dyner,
Mae magu lloie'n well o lawer:
Fe fydd 'nghalon i mron *creuloni
Ran ofered a dioced yw fy mab Dici.

*cynddeiriogi, ffyrnigo

Mae o am bob giamocs draw ac yma:

Rhodio, chware, *ffowlio, a hela,

Ymlid merched, ac yfed cwrw,

A mynd i *gocins yma ac acw.

*adara, saethu neu rwydo adar

*cock-pit i ymladd ceiliogod

Fe fydd rhai yn gweddïo am ras i'w plant,

Rydw inne'n chwerw iawn fy chwant,

Yn rhegi hwn â phob melltithion

O ran ei fod o mor afradlon.⁶⁷

Plant? Pwy 'maga nhw!

Dyma lle mae Cariad Perffaith yn ymddangos yn y stori, i gyflwyno ochr arall y geiniog. Mae'r cameo bach hwn yn odidog: dau fydolwg, un yn llawn sbeng a'r llall yn llawn gras. A dyna pam mae Alis yn ei chael hi'n amhosibl croesi'r llinell yna draw at Cariad: mae hi'n methu'n lân â gwneud na phen na chynffon ohoni. Er iddi glywed sôn am Gariad gan amryw o'i chyfoedion, 'I ba beth rwyf ti'n dda, ni fedra i wybod.' (CO Ashton, t. 105) Beth yw diben Cariad Perffaith? Beth yw ei phrif ddyletswydd? Mae Cariad yn ei hesbonio'i hun, y ferch dlos hon â'r bersonoliaeth hael, yr un braff, beniog sy'n credu'n gymesur mewn cariad cynhesol a Duw protestannaidd. Meddai:

Wel, Cariad sydd yn cuddio, clyw,

Heb ochel, amryw bechod. (CO Ashton, t. 106)

Mydryddiad sydd yma o'r adnod 'O flaen pob peth, cadwch eich cariad at eich gilydd yn llawn angerdd, oherwydd y mae cariad yn dileu lliaws o bechodau.'⁶⁸ Lle bo cariad ni ddisgwyliid clywed catalog o ffaeleddau'r anwylyd – fel mae Alis newydd ei gyflwyno i'r byd. Byddai'n naturiol fod yr un sy'n caru yn mynnu cefnogi ac amddiffyn enw da gwrthrych ei serch gan guddio unrhyw ddiffygion o olwg y cyhoedd.

Yn ail, pwysleisia Cariad Perffaith:

Er cymaint ydi Ffydd a Gobaith,

Mwyaf oll yw Cariad Perffaith;

Er gwneud pob gweithred dda mewn teimlad,

Ni thâl hi ddim heb gywir gariad. (CO Ashton, t. 106)

Dyma fydryddiad o ran o'r gân fawr i gariad a welir yn llythyr cyntaf Paul at y Corinthiaid 13:13, 'y mae ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn, yn aros. A'r mwyaf o'r rhain yw cariad.' Etyb Alis fod ganddi hithau gariad hefyd:

Alis: Mae gen i gariad gerwin rhyfedd
I'm haur a'm harian, ac i fyw'n *dymhoredd; *priodol, cymedrol
Ac ni alla i aros gweld mo ddull
Yr hen farus hyll Oferedd.

Cariad: Nid cariad cnawdol o'r fath honno
Ydi'r cariad sy'n cywiro.

Alis: Wel, os oes gen ti gariad ar ben dy hun,
Ni wn i fawr, ŵyr dyn, amdano. (*CO Ashton*, t. 106)

Diffyg dirnadaeth enbyd Alis o gyneddfau Cariad: dyna sydd ar y llwyfan. Er bod Cariad yn ei dehongli ei hun yn ddigon eglur nid yw'n deffro ymateb cadarnhaol yn Alis, nac yn deffro awydd ynddi am fod yn haelach ei natur, yn debycach i'r cymeriad haniaethol sydd o'i blaen hi ar y llwyfan.

Ond mae Cariad Perffaith yn ailafael yn y dasg o argyhoeddi Alis o bwysigrwydd hanfodol cariad fel sylfaen i fywyd, ac yn mydryddu mwy o adnodau o'r folawd feiblaidd, arwydd o gynefindra'r dramodydd (a'i gynulleidfa) â'r Ysgrhythrau. Sylwer pa mor agos mae Cariad Perffaith yn cadw at y geiriad beiblaidd:

Y gwir gariad ewyllysgar
Wna hirymaros yn ddioddefgar,
Nid yw yn cenfigennu un tro,
Mewn osgo mae'n gymwynasgar.

Y cariad pur nid yw'n ymffrostio,
Mewn awch eiddig nac yn ymchwyddo;
Does feddwl drwg, na hunan-dra,
Nac anweddeidd-dra ynddo.

Nid yw lawen am anghyfiawnder
Ond cydlawenha â'r gwir bob amser;

Y mae'n amyneddgar, ddoethgar, dda,
Trwy lendid a ffyddlonder. (CO Ashton, tt. 106–7)

‘Y mae cariad yn hirymarhous, yn gymwynasgar; cariad nid yw yn cenfigennu; nid yw cariad yn ymffrostio, nid yw yn ymchwyddo, nid yw yn gwneuthur yn anweddaidd, nid yw yn ceisio yr eiddo ei hun, ni chythruddir, ni feddwl ddrwg; nid yw lawen am anghyfiawnder, ond cydlawenhau y mae â'r gwirionedd; y mae yn dioddef pob dim, yn credu pob dim, yn gobeithio pob dim, yn ymaros â phob dim.’ (I Corinthiaid 13:4–7)

Ond nid oes dim yn tycio.

Alis: Wel, ni fase waeth o ffyrlyn
Trwy lewder iti siarad Lladin
A sôn am dy gariad, wastad wedd,
Ni wn i am ei rinwedd ronyn.

Y cariad mwya wn i amdano
Ydyw yd ac enllyn i ymgynllwyn ag efo;
Ceffylau, a defaid, a gwartheg iach,
A chywed llo bach yn *beichio. *brefu

Cariad: Mae'r rheini'n dda i'w lle a'u helynt –
Ni wiw i neb roi'i galon ynddynt;
Pethe'r byd i gyd sy'n darfod,
A thragwyddoldeb maith yn dyfod. (CO Ashton, t. 107)

I Alis rhywbeth yn y dyfodol pell yw ‘tragwyddoldeb maith’, ac mae ymglywed â gofynion y byd ysbrydol ymhell tu hwnt i'w chyrraedd. Pethau'r byd presennol sy'n ei gofidio hi, yn enwedig y Ffrancod hynny sydd ar ôl ei heiddo.

Alis: Ni weles i rioed na ddown yn burion
Ond medru ymgadw rhag rôgs a lladron. (CO Ashton, t. 107)

Unwaith eto mae'r ateb ar dudalennau'r Beibl mawr a Cariad yn hen ddigon abl i'w ddyfynnu:

Trysorwch i chwi drysorau cyhoedd,
Union afel, yn y Nefoedd
Lle nad all lladron, drawsion dro,
Er treio, gloddio trwodd. (*CO Ashton*, t. 107)

Rhestra sawl un na fydd yn tywyllu drws y nefoedd: lladron, meddwon, godinebwyr, ac ati. Mydryddu llythyr cyntaf Paul at y Corinthiaid y mae hi unwaith eto⁶⁹ nes i Alis dorri ar ei thraws:

Alis: Wel, beth rwyf ti felly'n barnu'n ffyrnig?
Gwaeth na lleidar, ydi pawb yn golledig?
Nis gwn i fod neb ar a fedra i adnabod,
Mawr na bychan, heb ynddo rhyw bechod.

Cariad: Gwir ydi hynny, gair diwahanieth,
Mae pawb tan felltith wrth y gyfreth,
A dyna'r modd mae'r un sy'n rhoi
Maddeuant rhad i'r rhai sy'n troi. (*CO Ashton*, t. 108)

Y rhai 'sy'n troi', dyma'r rhai sy'n osgoi melltith y gyfraith ac yn dod dan gysgod trugaredd yr hollalluog Dduw. Nodwedd ar yr anterliwtiau yw tröedigaeth y Cybydd, ond yn yr anterliwt hon ei wraig sy'n cael cynnig gras, ac mae Cariad Perffaith yn pwyso'n daer ar Alis i droi.

Coeliwch addysg, a gwelwch heddiw
Fod Cariad Perffaith yn eich galw;
Gadewch le i air y Cyfion
Yn fwy na'ch golud yn eich calon. (*CO Ashton*, t. 109)

Mae'n bosibl erbyn y cyfnod hwn ym mywyd Twm o'r Nant ei fod ef ei hun wedi ymateb yn gadarnhaol i alwad Cariad Perffaith a'i fod wedi troi at y Methodistiaid. Ond beth am Alis? A yw Cariad yn llwyddo i'w darbwylllo, ac Alis yn dod i blith y rhai 'sy'n troi'? Dim o gwbl. Mae geiriau Cariad yn dal yn Lladin i glust Alis.

Alis: Wel, ar f'engoch inne, ni rhosa i ddim chwaneg,
Rwyf wedi fy moedro efo dy ramadeg;

Mae nghalon cyn gleted yn hyn o le,
Mi wn o'r gore, â'r garreg. (CO Ashton, t. 109)

Mae calon Alis fel fflint, a'r cyngor doeth wedi syrthio ar dir caregog, anffrwythlon. Mae Cariad Perffaith yn siarad iaith nad yw Alis yn ei deall, ac mae gramadeg a rheolau'r iaith honno yn ddrws caeedig iddi. Wrth i Alis adael y llwyfan mae Cariad Perffaith yn canu ei galar fod pobl y ddaear yn gwersylla yn y gwersyll anghywir, wedi troi cefn ar gariad, ac yn ymladd yn rhengoedd llid a dicter. Dyma gân ardderchog, i'w chanu ar yr alaw 'Diniweidrwydd'.⁷⁰



Thomas Rowlandson (1756-1827) 'Y faledwraig' (1789)
(trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru)



Och! Garwa' meddwl, chwerwa moddion,
Fel 'raeth dynion, anrhaith dwys,
Oddi wrth lywodreth cariad perffeth
I lawn elynieth barieth bwys.
Yr hen genfigen flin ryfygus,
Waith anfoddus, aeth yn fawr;
Uwchlaw cariad y concweriodd,
Ni flaenorodd yma'n awr.
Cenhedleth barieth, llwyth gwiberod,
Caeth tan bechod yw pob un;
Nid oes a'i ddefnydd yn ddaionus,
Neges ddawnus, nac oes ddyn ...

Chwant yw'r famaeth, helaeth hwyliad,
I bob chwenychiad, rhediad rhwydd,
Mae pechod annwyl gan bob dynion,
Yng ngwraidd eu calon, serchlon swydd.
Y chwant sy'n esgor mewn chwyrn osgedd
Ar bechod ffiedd, baich di-ffael;
A phechod eilweth trwy ganlynieth,
Yn esgor ar farwoleth wael.
Gan hyn, gwelwn, gwyliwn goledd
Chwante llygredd, serthedd sen;
Adnabod ein calonne afluniedd
Sydd reitia mawredd inni. Amen. (*CO* Ashton, tt. 110–11)

Ac ar y nodyn soniarus yna y daw'r ddarlith hon i ben. Fel y byddai Twm o'r Nant yn ei ddweud wrth gloi ambell lythyr, ac fel y byddai sawl un o'n cyfoeswyr blaengar ninnau yn ei ddweud heddiw, 'Nid oes gennyf ddim i'w drydar yn rhagor.'

NODIADAU

¹ Henry Skrine, *Two Successive Tours throughout the whole of Wales* (London: Elmsley and Bremner, 1798), tt. 184–5. Ymhellach ar y teithiwr Henry Skrine (1755–1803) gw. Dictionary of National Biography ar-lein <http://www.oxforddnb.com/index/101025698/Henry-Skrine>

² Richard Parry, *Cyndrigolion y Deyrnas Hon* (1737) yn Ffion M. Jones, ‘Pedair Anterliwt Hanes: *Y Rhyfel Cartrefol* (?Huw Morys), *Cronicl y Cymry* (?Mathew Owen), *Cyndrigolion y Deyrnas Hon* (Richard Parry) a *Llur* (awdur anhysbys)’, (traethawd PhD anghyhoeddedig Prifysgol Bangor, 1999), ar gadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, LIGC 2000/416, t. 537, ll. 1029.

³ Am berfformio mewn cartref gw. Gareth Haulfryn Williams, ‘Anterliwt Derwyn Fechan, 1654’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 44 (1983), 53–8.

⁴ *The Letters of Lewis, Richard, William and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid Mon) 1728–1765*, gol. J. H. Davies (Aberystwyth: J. H. Davies, 1906–9), ii, t. 354.

⁵ Ymhellach ar y themâu gw. Rhiannon Ifans, *Cân di bennill ...?: themâu anterliwtiau Twm o'r Nant* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1997).

⁶ Sef i browlan a chwilio am ddyn a fyddai'n ei ffansio hi, er mwyn corddi ei emosiynau.

⁷ *Y Farddoneg Fabilonaid* (Merthyr: D. Jones, 1848), tt. 2–3, llau 25–44; golygwyd peth ar yr orgraff a'r atalnodi. Gw. hefyd Catrin Lyall, ‘Golygiad o “Y Farddoneg Fabilonaid”’, anterliwt gan Twm o'r Nant’ (traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Cymru [Bangor], 2005), ar gadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, LIGC 2006/0722, tt. 3–4, llau 25–44.

⁸ Gw. ‘Codiad yr Ehedydd’ yn Nicholas Bennett, *Alawon fy Ngwlad* (London: Bayley and Ferguson, 1896), t. 69, wedi'i chynganeddu ar gyfer y delyn neu'r piano.

⁹ *Pedair Colofn Gwladwriaeth* (Merthyr: D. Jones, 1848), tt. 12–14; golygwyd peth ar yr orgraff a'r atalnodi. Hepgorwyd y gân gyngor o olygiad G. M. Ashton (1964) o'r anterliwt yn *Anterliwtiau Twm o'r Nant: 'Pedair colofn gwladwriaeth' a 'Cybydd-dod ac oferedd'*, gol. G. M. Ashton (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1964). Diolch i Trefor Pugh, Trefenter, am ganu'r pennill hwn fel rhan o'r ddarlith.

¹⁰ T. J. Rhys Jones, ‘Yr anterliwt Gymraeg: ei ffynonellau, ei chreffftwaith, a'i gwerth

fel arwyddocâd o ddiwylliant y bobl' (traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Cymru [Abertawe], 1939), t. 158.

¹¹ *Pedair Colofn Gwladwriaeth* (Merthyr: D. Jones, 1848), t. 15; golygwyd peth ar yr orgraff a'r atalnodi.

¹² Gw. Gareth Haulfryn Williams, 'Anterliwt Derwyn Fechan, 1654', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 44 (1983), 56.

¹³ Richard Parry, *Cyndrigolion y Deyrnas Hon* (1737) yn Ffion M. Jones, 'Pedair Anterliwt Hanes: *Y Rhyfel Cartrefol* (?Huw Morys), *Cronicl y Cymry* (?Mathew Owen), *Cyndrigolion y Deyrnas Hon* (Richard Parry) a *Llur* (awdur anhysbys)', (traethawd PhD anghyhoeddedig Prifysgol Bangor, 1999), ar gadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, LIGC 2000/416, t. 564, llau 2004–7, 'yn lle Pwll Lli pall aelïau/roedd yno Gal a cheillïau/Walla mae felly bydd pob rhai/o wragedd Tai Tafarnau.'

¹⁴ Ibid. t. 564, llau 2000–4, 'Syr roedd gormod syrffed/garu Gwryw gydied/ffiedd ceisio yno ymhel/yn fuledd fel Anifeilied.'

¹⁵ *Hen Benillion*, gol. T. H. Parry-Williams (Llandysul: Gomer, 2010), pennill 723.

¹⁶ Ibid. pennill 471.

¹⁷ Ibid. pennill 577.

¹⁸ Samuel Taylor Coleridge, *Biographia Literaria*, ed. Nigel Leask (London: Everyman, 1997), t. 179; wrth lunio cerdd 'my endeavours should be directed to persons and characters supernatural, or at least romantic; yet so as to transfer from our inward nature a human interest and a semblance of truth sufficient to procure for these shadows of imagination that willing suspension of disbelief for the moment, which constitutes poetic faith.' A chyda'r canllaw hwnnw i'w dywys y lluniodd Coleridge y gerdd 'Ancient Mariner'. Ymhellach ar Samuel Taylor Coleridge gw. Kathleen M. Wheeler, *Sources, processes and methods in Coleridge's Biographia Literaria* (Cambridge: Cambridge University Press, 1980); Christopher Stokes, *Coleridge, Language and the Sublime* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2011).

¹⁹ Margaret L. Andersen a Howard F. Taylor, *Sociology: Understanding a Diverse Society* (Belmont, Calif.; Llundain: Wadsworth, 2004), t. 317.

²⁰ Loc. cit.

- ²¹ *Tri Chryfion Byd*, gol. Norah Isaac (Llandysul: Gwasg Gomer, 1975), t. 25.
- ²² *Ibid.* t. 23.
- ²³ *Anterliwtiau Twm o'r Nant: 'Pedair colofn gwladwriaeth' a 'Cybydd-dod ac oferedd'*, gol. G. M. Ashton (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1964).
- ²⁴ Awgrymwyd mai saith rhan fenywaidd o bwys sydd yn anterliwtiau Twm o'r Nant drwyddi draw, gw. G. G. Evans, 'Merched Llwyfan Twm', *Barn* (Mawrth 1996), 34–6.
- ²⁵ Gw. Nia Tudur, *Pleser a Gofid Twm o'r Nant* (Bangor: Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Bangor, 2001).
- ²⁶ *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1950–2002), tt. 1407–8; O. H. Fynes-Clinton, *The Welsh Vocabulary of the Bangor District* (Oxford: Oxford University Press, 1913), t. 151.
- ²⁷ *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, gol. John Rhys a J. Gwenogvryn Evans (Oxford: J. G. Evans, 1890), t. 194, llau 23–4.
- ²⁸ Rachel Bromwich, *Trioedd Ynys Prydein* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1961), tt. 154–6, 380–5; Peter Noble, 'The Character of Guinevere in the Arthurian Romances of Chrétien De Troyes', *The Modern Language Review*, 67/3 (1972), 524–35; Tom Peete Cross & William A. Nitze, *Lancelot and Guenevere: A Study on the Origins of Courtly Love* (Chicago: The University of Chicago Press, 1930); *Lancelot and Guinevere: A Casebook*, ed. Lori J. Walters (New York and London: Garland Publishing, Inc., 1996).
- ²⁹ Adroddwyd y stori am y tro cyntaf yn ystod y 12g. yng ngherdd Chrétien de Troyes 'Le Chevalier de la Charrette' (Marchog y Cert), cerdd a luniwyd ar gais ei noddwraig, yr Iarlles Marie de Champagne, merch Louis VII o Ffrainc ac Elinor o Aquitaine. Ailymddengys y stori droeon a thro fel motiff cyffredin yn y chwedlau Arthuraidd, gan ddechrau â'r gyfres Lawnsloot-Greal (yn Ffrangeg *Lancelot-Graal*) yn gynnwys yn y 13g., ac ymlaen drwy'r gyfres Cylch Fwlgat y Rhamantau Arthuraidd; bu'r chwedlau yn ffynhonnell bwysig i Thomas Malory wrth iddo lunio 'Le Morte d'Arthur', gwaith a gyhoeddwyd gyntaf gan William Caxton yn 1485.
- ³⁰ Am enghraifft arall o alw gwraig y cybydd wrth yr enw *Gwenhwyfar* gw. Huw Jones Llangwm a Siôn Cadwaladr o'r Bala, *Y Brenin Dafydd* (Caerlleon: Read and Huxley, [c. 1765]) yn Llyfrgell Prifysgol Bangor, Micro H9/3(1). Am ymdriniaeth ar yr anterliwt gw. A. Cynfael Lake, 'Anterliwt Y Brenin Dafydd', *Y Traethodydd* (2007), 89–106.

³¹ J. J. Evans, *Diarhebbion Cymraeg* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1965), t. 28.

³² Ar gybydd yr anterliwt gw. Rhiannon Ifans, *Cân di bennill ...?: themâu anterliwtiau Twm o'r Nant* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1997), 19–20.

³³ Ar y ffwl mewn llenyddiaeth gw. Enid Welsford, *The Fool: His Social and Literary History* (London: Faber and Faber, [1935]); *The Fool and the Trickster: Studies in Honour of Enid Welsford*, ed. Paul V. A. Williams (Cambridge: D. S. Brewer Ltd., 1979); Sandra Billington, *A Social History of the Fool* (Brighton: Harvester, 1984); Barbara Swain, *Fools and Folly during the middle ages and the Renaissance* (New York: Columbia University Press, 1932).

³⁴ Huw Jones Llangwm a Siôn Cadwaladr o'r Bala, *Y Brenin Dafydd* (Caerlleon: Read and Huxley, [c. 1765]) yn Llyfrgell Prifysgol Bangor, Micro H9/3(1), t. 39, lle y dywed Cecryn y Ffwl wrth drafod y tlodion gyda Madog Chwanog y Cybydd, 'Fo drigan i gyd, yn sapie,/Fel Penweg yn y Pyne;/Ni fydd r'un heb fferu yngwaelod Ffôs,/y goilia i yn aros Gwilié' ac yntau'r Cybydd yn ateb: 'I Ddiawl! ond dyna'r Newydd gore/A glowes i erioed a'm Clustie;/Ag a drigan bod ag un,/Ni bydd o honun run yn unlle.'

³⁵ Gw. <http://www.cdvmonumental.co.uk/farmhorsetax17971798.htm>

³⁶ William Pitt yr Ieuaf (1759–1806) oedd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig yn ystod y Chwyldro Ffrengig a'r Rhyfeloedd Napoleonaid.

³⁷ *Pedair Colofn Gwladwriaeth* (1786) yn *Anterliwtiau Twm o'r Nant*: 'Pedair colofn gwladwriaeth' a 'Cybydd-dod ac oferedd', gol. G. M. Ashton (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1964), t. 15; golygwyd peth ar yr orgraff a'r atalnodi, felly hefyd yn yr enghreifftiau a ganlyn.

³⁸ Am ddeiseb yn gwneud cais ar ran gweinidogion Eglwys yr Alban am gael eu hesgusodi rhag talu'r dreth gw. National Archives: SP 54/45, t. 619 (1765); am ateb y Trysorlys yn gwrthod y cais hwnnw gw. National Archives: SP 54/45, t. 623 www.nationalarchives.gov.uk/pathways/citizenship/rise_parliament/docs/window_tax.htm (1765)

³⁹ Meddai Hywel Dordyn yn *Cyfoeth a Thlodi* (1768): 'Mae arnom ni drethi trymion/Yn mynd i gadw tlodion', gw. Thomas Edwards, *Y Ddau Ben Ymdrechgar; sef Cyfoeth a Thylodi* (Llanrwst: John Jones, 1841), t. 42.

⁴⁰ Gw. Richard Moore-Colyer, *Welsh cattle drovers: agriculture and the Welsh cattle trade before and during the nineteenth century* (Ashbourne: Landmark, 2006),

t. 61. Er hynny, 'It should not be overlooked that for every drover convicted of fraudulent activities there must have been many others who plied their trade honestly and diligently, enjoying the implicit trust of the farmers with whom they dealt and the landowners by whom they were employed. These were the men whose contributions to the promotion of Welsh literature, both secular and religious, to the development of banking and to lay preaching within the nonconformist fold, played such a fundamental role in Welsh life', gw. *ibid.* t. 61. Ymhellach ar y porthmyn gw. Emlyn Richards, *Porthmyn Môn* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1998); S. P. Thomas, 'Twelve miles a day: some thoughts on the drovers', *The Transactions of the Radnorshire Society*, 54 (1984), 58–66. Am hanes William Price, (1793–1868), gw. Paul F. Mason, 'Portrait of a drover: William Price of Hendre Ucha, Nercwys', *Clwyd Historian/Hanes Bro Clwyd*, 62 (Gwanwyn 2010), 6–15. Am enghraifft anterliwtiol arall o ddifenwi porthmyn gw. *Canu Twm o'r Nant*, gol. Dafydd Glyn Jones (Bangor: Dalen Newydd Cyf., 2010), tt. 60–2, sef golygiad o sgwrs Rondol Rowndyn a Siân Ddefosiynol o'r anterliwt *Pleser a Gofid*.

⁴¹ Cyfeiria nifer o awduron Cymraeg o'r 18g. a'r 19g. at Iddewon, er enghraifft cerdd Daniel Evans 'Daniel Ddu o Geredigion', 'Golwg ar Gyflwr yr Iddewon' (Aberystwyth: John Cox, 1826), a grynhowyd fel a ganlyn gan y bardd: 'Golwg ar gyflwr presennol Had Abraham ... Eu gogoniant gynt fel cenedl ... Eu gwrthodiad o'r Messiah ... Y canlyniad o hyny, sef dinystr eu Dinas a'u gwasgariad hwythau ... Agwedd druenus gwlad Canaan y dydd heddyw ... Galwad ar Israel i gredu etto yn y Messiah, a'r effeithiau dedwydd a ganlyn.' Nid oedd cymuned o Iddewon yng Nghymru yn ystod hanner cyntaf y 18g. er y gallai fod unigolion; y gymuned hynaf yw'r un a sefydlwyd yn Abertawe yn 1768 a'r ail hynaf yw'r un a sefydlwyd yng Nghaerdydd yn ystod 30au a 40au'r 19g. Ni sefydlwyd cymunedau o Iddewon yng ngogledd Cymru tan yn hwyr yn y 19g.: Bangor (1894), Llandudno (1909), a Wrecsam yn ystod y 1890au. 'What is interesting about north east Wales is its close proximity to Liverpool/Manchester where larger Jewish communities were in existence. I have found that during the early nineteenth century many Liverpool/Manchester Jews would travel to north Wales as travelling salesmen, selling goods from village to village, and then returning to Liverpool/Manchester for the Sabbath. There may have been individual Jews present in north-east Wales during the late 18th century, but I have not come across any.' Diolchir i Cai Parry-Jones am yr wybodaeth hon. Ar hanes Iddewiaeth gymunedol gw. gwaith arloesol Bill Williams, *The making of Manchester Jewry 1740–1875* (Manchester: Manchester University Press, 1976) sy'n cynnwys ambell gyfeiriad at Ogledd Cymru. Gw. hefyd K. L. Abrahams, 'The first Jews in Liverpool', *Greenbank Drive Synagogue Review* (1970); B. Benas, 'Records of the Jews in Liverpool', *Transactions of the Historic Society of Lancashire and Cheshire*, 15 (1899).

⁴² Llyfr y Pregethwr 1:2.

⁴³ [William Williams ‘Caledfryn’], ‘Athrylith a Gweithion Thomas Edwards, o’r Nant’, *Y Traethodydd*, viii (1852), 137.

⁴⁴ Thomas Edwards, *Y Ddau Ben Ymdrechgar; sef Cyfoeth a Thylodi* (Llanrwst: John Jones, 1841), t. 26.

⁴⁵ William Hay, *Diarhebbion Cymru* (Lerpwl: Gwasg y Brython, 1955), t. 115.

⁴⁶ O waith Twm o’r Nant y codwyd y ddihareb i gasgliad William Hay, *op. cit.*, t. 270.

⁴⁷ *Cybydd-dod ac Oferedd yn Anterliwtiau Twm o’r Nant: ‘Pedair colofn gwladwriaeth’ a ‘Cybydd-dod ac oferedd’*, gol. G. M. Ashton (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1964), t. 57, ll. 1133.

⁴⁸ Canwyd y gân gan Trefor Pugh a Rhiannon Ifans fel rhan o’r ddarlith.

⁴⁹ Luc 13:6–9.

⁵⁰ Rhiannon Ifans, ‘Celfyddyd y Cantor o’r Nant’, *Ysgrifau Beirniadol*, 21 (Dinbych: Gwasg Gee, 1996), 120–46; Ffion Mair Jones, ‘Cerddoriaeth yr anterliwtiau: golwg ar le’r caneuon mewn pedair anterliwt enghreifftiol’, *Llên Cymru*, 26 (2003), 63–87.

⁵¹ Ni ddaethpwyd o hyd i’r alaw hon ar glawr. Alaw bum llinell arall y gellid canu’r geiriau hyn arni’n foddhaol iawn yw’r alaw ‘Mi a glywais fod yr hedydd’.

⁵² Cyfeirir yma at y wraig rinweddol a osodir yn batrwm yn Llyfr y Diarhebbion 31:10–31.

⁵³ Mae’n debyg mai Twm o’r Nant a chwaraeai ran y Ffŵl, ac roedd Twm yn berson ofergoelus o ran natur. Pan oedd yn cadw tollborth gwelai yn mynd drwodd ‘y peth a fyddent hwy yn ei alw yn y *Gyheureth* neu ledrieth; weithiau *hearsiau* a *mourning coaches*, ac weithiau angladdau ar draed, i’w gweled mor amlwg ag y gwelir dim, yn enwedig liw nos. Mi a welais fy hun, ryw noswaith, *hears* yn myned trwy’r *Gate*, a hithau ynghauad’, gw. *Hunangofiant a Llythyrau Twm o’r Nant*, gol. G. M. Ashton (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1964), t. 43.

⁵⁴ Felly yr ystyrid Anti Sal o’r Sowth, y sipsi gyntaf i gael ei phortreadu mewn anterliwt, ac o bosibl mewn llenyddiaeth Gymraeg drwyddi draw; ymddengys yn yr anterliwt *Pleser a Gofid* (1787). Yn sipsi o hil gerdd, ac ar drothwy ei phedwar ugain oed, mae’n dra phrofiadol wrth y dasg o ddweud ffortiwn, a’r enwog Abram Wood yn gefinder iddi meddai. Ar Abram Wood gw. Eldra Jarman & A. O. H. Jarman,

The Welsh Gypsies: Children of Abram Wood (Cardiff: University of Wales Press, 1991), tt. 57–101; E. O. Winstedt, ‘The Wood Family’, *Journal of the Gypsy Lore Society*, 10 (1931), 171–87, ac ar Anti Sal o’r Sowth (o bosibl) gw. art. cit. 179 ac Eldra Jarman & A. O. H. Jarman, op. cit. tt. 37–40. Mae Anti Sal yn darogan dyfodol disglair i Rondol y Cybydd: ‘*You are going to court a shopkeeper woman,/Oh! bless my soul, you shall have plenty of arian ... O! ewch ar redeg i’ch priodi/And sooner the better, she’s a glorious beauty*’, gw. Nia Tudur, *Pleser a Gofid Twm o’r Nant* (Bangor: Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Bangor, 2001), t. 59, llau 1201–2, 1205–6. Proffwydoliaeth gyfeiliornus oedd honno. Ar ganeuon y Romani gw. Tim Coughlan, *Now Shoon the Romano Gillie: Traditional Verse in the High and Low Speech of the Gypsies of Britain* (Cardiff: University of Wales Press, 2001).

⁵⁵ Llyfr Deuteronomium 18:10–12.

⁵⁶ Ben Davies, ‘Llythyrau Twm o’r Nant at Owain Myfyr, yn Amgueddfa Brydain’, *Y Ford Gron* (Medi 1935), 246.

⁵⁷ Thomas Edwards, ‘At y Darllenydd’, *Cybydd-dod ac Oferedd* (Liverpool: Isaac Foulkes, 1870), t. [3].

⁵⁸ *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1950–2002), tt. 6–7.

⁵⁹ *Cybydd-dod ac Oferedd yn Anterliwtiau Twm o’r Nant: ‘Pedair colofn gwladwriaeth’ a ‘Cybydd-dod ac oferedd’*, gol. G. M. Ashton (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1964), t. 76; golygwyd peth ar yr orgraff a’r atalnodi, felly hefyd yn yr enghreifftiau a ganlyn.

⁶⁰ Codwyd carchar Rhuthun yn 1775, yn ystod oes Twm o’r Nant. Gyferbyn â’r carchar safai tafarn y Royal Oak a drwyddedwyd am y tro cyntaf yn 1788: ‘It is a stone built building, of a similar architectural style as the prison buildings opposite, and may well have been built during the same time’, gw. Geraint Owen, *Old and present pubs of Ruthin town: a brief history of over 70 Ruthin pubs* (Ruthin: Invisus, 2004), t. 32. Os cyfeiriad at dafarn y Star sydd yma: ‘The Star is located directly opposite the prison. In the 1770s, the prison buildings on the pavement’s edge were built, and the old house of correction and lock up were demolished. This new building housed both men and women. The Star provided ale to the warders and inmates until stricter rules were enforced in the 1830s’, gw. ibid. tt. 32–3. Gw. hefyd Dienw, *A few of the Old Inns and Alehouses, Ruthin* (Mold: Clwyd County Council, [1986]). Nid yw’n eglur beth yw’r cyfeiriad at yr ‘anifel ofer’, ond nodir mai *seren* yw darlleniad G. M. Ashton yn hytrach na *sign* fel sy’n argraffiad Isaac Foulkes. Ar yr un ochr i’r stryd â’r Star a’r Royal Oak roedd tafarn y Red Lion a thafarn yr Unicorn, ond nid oeddent hwy gyferbyn â charchar Rhuthun.

⁶¹ Teulu'r Williams Wynn oedd teulu cyfoethocaf Cymru yn ystod y 18g. Roedd Syr Watkin Williams Wynn II (1749–89) yn berchen ar stadau helaeth Wynnstey; bu'n Aelod Seneddol dros swydd Amwythig 1772–4, ac yn Aelod Seneddol dros sir Ddinbych o 1774 hyd ei farwolaeth yn 1789. Roedd yn noddwr hael i'r celfyddydau, a chyfrifai George Frideric Handel ymhlith ei gyfeillion. Cyfeirir yma at y parti ysblennydd a gynhaliwyd yn 1770 pan ddaeth Syr Watkin i oed; gwahoddwyd 15,000 i'r dathliad. 'Three coaches full of Cooks were sent from London on ye occasion' ac yfwyd 70 hocsied o gwrw ynghyd â chasgennaid arall a gynhwysai 26 hocsied yn ôl y rhestr swyddogol o fwyd a diod a fwytawyd yn y wledd ar 19 Ebrill 1770, gw. Askew Roberts, *Wynnstey and the Wynns* (Oswestry: Woodall and Venables, 1876), t. 96. Ymhellach ar Syr Watkin Williams Wynn gw. *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), t. 1034; *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (Caerdydd, 1997), tt. 794–5. Ar gartref Syr Watkin Williams Wynn yn Llundain, sef 20 St James's Square, gw. John Olley, *Architects' Journal* 191/8, (1990), 34–57; *ibid.* 191/9 (1990), 34–53. Canodd Twm o'r Nant gywydd mawl i Syr Watkin yn 1786, dair blynedd cyn ei farwolaeth; fe'i cyhoeddir, ynghyd ag ymdriniaeth arno, yn A. Cynfael Lake, 'Molawd Twm o'r Nant i Syr Watkin Williams Wynn', *Barddas*, 131 (Mawrth 1988), 1–3.

⁶² Ar 'Glan Meddwdod Mwyn' gw. *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, ii (1914–25), 154, 210; ymddangosodd yr alaw mewn print am y tro cyntaf yng nghasgliad John Parry 'Y Telynor Dall', Rhiwabon, *A Collection of Welsh, English and Scotch Airs* (London, 1761), rhif 3.

⁶³ Un o arferion yr anterliwt oedd ebychu 'nad elwy i fyth i Wrecsam/yr Hôb/Llanferras', ac ati.

⁶⁴ Ffurf ar 'trained bands', neu 'trainbands', sef rhagflaenwyr y milisia yn yr 17g. Gw. *The Concise Oxford English Dictionary* (Oxford: Oxford University Press, 2008) 'a division of civilian soldiers in London and other areas, especially in the Stuart period'.

⁶⁵ Frederick North (1732–92), Prif Weinidog y Deyrnas Unedig 1770–82, a adwaenid wrth y teitl cwrteisi Lord North. Roedd y Rhyfel Saith Mlynedd (1756–63) yn Ewrop trosodd, a threuliodd y rhan fwyaf o'i brifweinidogaeth yn ymhél â Rhyfel Annibyniaeth America (1775–83). Swyddog ym myddin Prydain oedd General Burgoyne; bu'n ymladd yn y Rhyfel Saith Mlynedd, ond daeth i enwogrwydd ar gyfrif ei ran yn Rhyfel Annibyniaeth America. Ymladdodd ymgyrch Saratoga, gan ildio byddin o 5,000 o filwyr i'r Americanwyr ar 17 Hydref 1777, cyn wynebu beirniadaeth lem ar ei ddychweliad i Brydain.

⁶⁶ Tybed a oes yma gyfeiriad at chwedl 'Lludd a Llefelys' a chladdu'r dreigiau yn Ninas Emrys yn Eryri? Rhestrir ymysg Trioedd Ynys Prydain driawd dwbl 'Tri

Chudd a Thri Datgudd Ynys Prydain', sef rhestr o dri pheth a guddiwyd yn Ynys Prydain er lles a thri pheth a guddiwyd er drwg. Cuddiwyd y dreigiau yn Eryri er lles (*ac yn y lle diogelaf a gauas yn Eryri y mywn kist vaen a'e kudywys* 'fe'u cuddiodd mewn cist garreg yn y lle diogelaf a ddarganfu yn Eryri'): o guddio'r dreigiau ni ddeuai gormes i dir Prydain, gw. Rhiannon Ifans, *Gwerthfawrogi'r Chwedlau* (Aberystwyth: Canolfan Astudiaethau Addysg, 1999), t. 154, llau 137–8; Dafydd a Rhiannon Ifans, *Y Mabinogion* (Llandysul: Gomer, 1995), t. 87.

⁶⁷ Dim ond y ddau bennill cyntaf o'r tri hyn sydd yng ngolygiad Ashton, t. 105; codwyd y trydydd pennill o argraffiad Isaac Foulkes, tt. 33–4.

⁶⁸ I Pedr 4:8.

⁶⁹ I Corinthiaid 6:9–10 'Oni wyddoch chwi na chaiff y rhai anghyfiawn etifeddu teyrnas Dduw? Na thwyller chwi: ni chaiff na godinebwyr, nac eilun-addolwyr, na thorwyr priodas, na masweddwyr, na gwrywydwyd, na lladron, na chybyddion, na meddwon, na difenwyr, na chribddeilwyr, etifeddu teyrnas Dduw.'

⁷⁰ Phyllis Kinney, 'The Tunes of the Welsh Christmas Carols (I)', *Canu Gwerin*, 11 (1988), 46–7. Canwyd y gân gan Trefor Pugh a Rhiannon Ifans fel rhan o'r ddarlith.

‘A’R BYD I GYD YN BAPUR ...’: ATODIAD

E. Wyn James



Yn y rhifyn diwethaf o *Canu Gwerin* (cyfrol 34 (2011), tt. 54–75) cwblheais gyfres o erthyglau yn trafod enghreifftiau Cymraeg o fformwla lenyddol hynafol iawn y gellir ei holrhain mor bell ag ysgrifeniadau Sansgrit dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Ffurf ar ‘dopos yr anhraethadwy’ ydyw’r fformwla rethregol hon, ac fe’i defnyddir yn arbennig yng nghyd-destun canu crefyddol a chanu

serch. Er bod nifer o amrywiadau o ran ei manylion, yr elfennau sylfaenol yn y fformwla yw dweud, pe bai’r môr yn inc a’r byd (neu’r ffurfafen) yn bapur, a holl wellt a choed y dddear yn ysgrifbiniau, na fyddai modd hyd yn oed wedyn fynegi rhywbeth neu’i gilydd yn llawn neu’n ddigonol.

Mae’n fformwla sy’n brigo i’r golwg mewn emynau Cymraeg a Saesneg yn y ddeunawfed ganrif a’r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cafwyd cais yn y cylchgrawn *Goleuad Cymru* yn 1822, gan un yn dwyn y ffugenw ‘Flintensis’, am gyfieithiad i’r Gymraeg o gerdd Saesneg ar y testun ‘Love of God’ a ddefnyddiai’r fformwla honno; ac yn yr erthygl yn y rhifyn diwethaf o *Canu Gwerin* atgynhyrchais y tair ymgais i gyfieithu’r gerdd a ymddangosodd yn *Goleuad Cymru* yn ymateb i’r cais hwnnw. Cylchgrawn a gyhoeddwyd yng Nghaer gan un o weinidogion amlwg y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig, John Parry (1775–1846) – awdur *Rhodd Mam* – oedd *Goleuad Cymru*, ac yr oedd yn rhagredegydd i gylchgrawn *Y Drysorfa*, y dechreuwyd ei gyhoeddi yn 1831 dan olygyddiaeth John Parry.

Peth digon cyffredin yng nghylchgronau Cymraeg hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw gweld ceisiadau am gyfieithiadau o gerddi Saesneg, ac yn *Y Drysorfa* ym mis Ionawr 1835 (t. 18) cafwyd y cais a ganlyn:

A fydd gwiw gan eich Prydyddion roddi cyfieithiad Cymraeg i’r llinellau hyn, a hwy a foddhant yr eiddoch,

W. CHAPMAN

A SUBLIME THOUGHT.

Could we with ink the ocean fill,
Were the whole earth of parchment made,
Were every blade of grass a quill,
And every man a scribe by trade.
To write the Love of God alone,
Would drain the ocean dry:
Nor could the scroll contain the whole,
Though stretch'd from sky to sky.

Cafwyd sawl ‘gofyniad’ arall gan W. Chapman yng ngholofnau'r *Drysorfa* yn yr un cyfnod, ac yn rhifyn Ionawr 1836 nodir ei fod yn dod o ‘Gaerlleon’ (sef Caer/Chester). Fel y nodwyd yn f’erthygl yn y rhifyn diwethaf o *Canu Gwerin*, bu’r pennill Saesneg uchod, neu amrywiadau arno, mewn cylchrediad eithaf eang yn Lloegr a’r tu hwnt o ail hanner y ddeunawfed ganrif ymlaen – fe’i pwythwyd ar sampler yn America yn 1828, er enghraifft – a daeth yn boblogaidd iawn mewn ymgyrchoedd efengylu yn America a Phrydain yng nghanol yr ugeinfed ganrif fel pennill clo’r emyn, ‘The Love of God is greater far / Than tongue or pen can ever tell ...’

Cafwyd ymateb cyflym i gais W. Chapman, oherwydd yn y rhifyn nesaf o’r *Drysorfa*, Chwefror 1835 (t. 51), ymddangosodd cyfieithiad o’r pennill gan Joseph Hughes, Treffynnon. (Ai hwn, tybed, oedd y Joseph Hughes o Dreffynnon a gyhoeddodd farwnad i David Pennant, ŵyr i’r naturiaethwr a’r hynafiaethydd, Thomas Pennant, yn 1837?) Dyma’r cyfieithiad:

MEDDWL HEDEGOG.

Pe byddai’n ingc yr eigion mawr,
A’r ddae’r yn rhôl o femrwn gwyn;
Yn ysgrif-binau, gwellt y llawr,
Yn ‘sgrifenyddion pob rhyw ddyn;
’Sgrifenu cariad Duw’n ddigoll
A wnai hyspyddu’r môr yn wir,
Ac ni chynwysai’r rhôl yr oll
Pe bai cyhyd a’r wybren hir!

Dim ond yr un ymateb hwnnw a gafwyd, hyd y gwelaf, ac nid yw, ysywaeth, yn gyfieithiad o'r radd flaenaf! Ond un peth sy'n ddiddorol yw'r ffaith fod y ceisiadau am gyfieithu'r cerddi Saesneg crefyddol hyn, yn 1822 ac yn 1835, wedi dod o'r un ardal yn fras (fe ymddengys), sef o ardal Caer a sir Fflint, a bod y ddau gais ynghlwm wrth gylchgrawn a gyhoeddwyd gan John Parry.

Fel y nodwyd yn y rhifyn diwethaf, cyhoeddodd Hopcyn Bevan (1765–1839), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Llangyfelach ger Abertawe, addasiad Cymraeg o'r pennill, 'Could we with ink the ocean fill', mewn cyfrol yn 1837, a thybed ai'r cais a ymddangosodd yn *Y Drysorfa* yn 1835 a fu'n ysgogiad i Hopcyn Bevan lunio ei addasiad ef? Ni wn am addasiadau Cymraeg eraill o'r pennill, ac eithrio un eithaf diweddar gan Carey Jones, Wrecsam, yn ei gyfrol *Credu'n Wahanol* (1972), t. 49, y cyfeiriais ato yn y drydedd erthygl yn y gyfres hon:


Pe gellid llanw'r môr ag inc i gyd,
A gwneud pob blewyn glas yn gwilsiau drud,
Pe bai'r cyfanfyd maith yn femrwn hir,
A phe bai dynion yn llenorion gwir,
Fe sychai'r môr yn iawn
Cyn gellid traethu'n llawn
Am gariad Duw uwchben.

Tybed a ŵyr darllenwyr *Canu Gwerin* am ragor o enghreifftiau? Byddai'n dda gwybod.

ADOLYGIAD

Llio Rhydderch a Tomos Williams,
Carn Ingli: Hud ar Ddyfed

Mae'r CD yn cynnwys ymdriniaeth gelfydd ar dair ar ddeg o alawon gwerin Cymreig, rhai ohonynt, mae'n rhaid cyfaddef, nad oedd yn gyfarwydd i mi. Ceir amrywiaeth o unawdau, deuawdau a thriawdau gyda'r amrywiol offerynnau (sef Llio Rhydderch ar y delyn deires, Tomos Williams ar y trwmped a'r flugelhorn, a Marc O'Connor ar y drymiau) yn asio'n hyfryd i greu datganiad cerddorol sy'n gwbl fodern ac eto'n driw i'r alawon gwreiddiol a'u traddodiad.



Recordiwyd y CD mewn hen borthdy Tuduraidd wrth droed mynydd Carn Ingli yng ngogledd Sir Benfro, ac mae'r 'hud a lledrith' mabinogaidd sy'n gysylltiedig â'r ardal honno i'w deimlo'n gryf yn y datganiadau. Mae'r defnydd o'r flugelhorn yn ysbrydoledig, ac mae'n rhaid canmol hefyd y perfformiad sensitif ar y drymiau. Roeddwn yn bryderus, cyn gwrando ar y CD, y byddai'r drymiau yn tarfu ar y datganiadau. Fodd bynnag, ni chafwyd y drymio caled a ddisgwylid wrth gadw'r curiad, ond yn hytrach fe ddefnyddiwyd yr offeryn i greu effaith feddalach, ac i gynnal y naws.

Mae sain y delyn yn lân a chlr, a defnyddir yr effeithiau sy'n bosib ar y deires yn unig yn gelfydd a diffuant. Yr unig feirniadaeth sydd gennyf yw nad oes digon o amrywiaeth o ran naws yn y dewis o alawon a gyflwynir. Byddai cynnwys mwy o alawon bywiog wedi cyfoethogi'r profiad gwrando. Credaf mai dyma'r rheswm pam mai'r ddau drac olaf yw fy ffefrynnau, sef yr ymdriniaeth ysgafn ar 'Yr Hen Amaryllis', ac yna'r agoriad hudolus o 'Bedd 'Fanwylid' sy'n adeiladu'n gywrain, cyn dod â'r datganiad i ddiweddglu penagored.

Gwyddom i gyd am gyfraniad enfawr Llio Rhydderch i ddod â'r delyn deires yn ôl i'w lle haeddiannol yng nghanol y traddodiad offerynnol Cymreig, ac rwy'n siwr y bydd y CD yn ysbrydoliaeth i lawer i barhau ac i ddatblygu'r traddodiad hwnnw.


Bethan Bryn

ADOLYGIAD

Ffion Mair Jones, *Welsh Ballads of the French Revolution 1793–1815* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2012), 486tt. Pris: £24.99

Ychydig a ysgrifennwyd am ymateb Cymru i'r Chwyldro Ffrengig ac am y caneuon Cymraeg a ysbrydolwyd gan y digwyddiad gwleidyddol ysgytwol hwn. Mae *Welsh Ballads of the French Revolution (1793–1815)* yn un o'r cyhoeddiadau iaith Saesneg cyntaf ar faledi yn yr iaith Gymraeg a gyfansoddwyd yn ystod cyfnod pwysig iawn yn hanes gwaredddiad y Gorllewin. Mae'r testunau yn canu i gyffroadau'r cyfnod chwyldroadol hwn wrth i bobl ym Mhrydain ddechrau ymateb i farwolaethau treisgar teulu brenhinol Ffrainc, i'r perygl o ymosodiadau posibl gan Ffrainc neu chwyldroadau efelychol ym Mhrydain, ac i'r her o fyddino ar raddfa fwy nag erioed o'r blaen. Cyflwynir cyfieithiadau i'r Saesneg yn gyfochrog â'r testunau gwreiddiol, ynghyd â nodiadau cyd-destunol helaeth, gan roi cyfle i ni weld am y tro cyntaf gasgliad o faledi a gyfansoddwyd gan lu o awduron anenwog. Dyma gyfrol sy'n tynnu sylw at Gymru, a'r faled fel *genre*, fel rhan o'r ymateb Prydeinig i'r Chwyldro yn Ffrainc.

Paratowyd y gyfrol gan Dr Ffion Mair Jones, Cymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru er mis Hydref 2001. Bu'n gweithio i ddechrau ar y prosiect 'Iolo Morganwg a'r Traddodiad Rhamantaidd yng Nghymru', ac mae ar hyn o bryd yn gweithio ar y prosiect 'Cymru a'r Chwyldro Ffrengig'.





* 1806013 *

Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.